# Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd

Chwefror 2023

# Cynnwys


1. Cyflwyniad a Chefndir ........ 3
2. Manylion yr Ymgynghoriad ........ 4
3. Methodoleg Dadansoddi ........ 5
4. Crynodeb o'r Ymatebwyr ........ 7
5. Crynodeb o Ymatebion fesul Pennod ........ 8

5.1 Pennod 1: Canllawiau Statudol ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd ........ 8

Canllawiau a Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd ........ 8

Canllawiau a Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd (Fframwaith Lefelau Niwed) ........ 10

Y berthynas â dyletswyddau proffesiynol ........ 11

Gwasanaethau a Gomisiynir ........ 13

Rhestrau Aros (Niwed) ........ 14

Gofynion Adrodd ........ 16

5.2 Pennod 2: Rheoliadau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd ........ 18

Rhoi Gwybod, Cysylltu ac Ymddiheuriad ........ 18

Hyfforddiant a Chymorth ........ 22

Llywodraethu a Goruchwylio ........ 24

5.3 Pennod 3: Mân Ddiwygiadau i'r Rheoliadau Gweithio i Wella; a ........ 25

5.4 Pennod 4: Diwygiadau a Diweddariadau i'r Canllawiau Gweithio i Wella ........ 25

Gweithio i Wella ........ 25

5.5 Pennod 5: Asesiadau Effaith Integredig ........ 28

Asesiadau Effaith Integredig (Nodweddion Gwarchodedig) ........ 28

Asesiadau Effaith Integredig (yr iaith Gymraeg) ........ 30

5.6 Sylwadau Ychwanegol ........ 31

6 Casgliad/Y Camau Nesaf ........ 32

Atodiadau ........ 34

Atodiad A: Diffiniadau o Themâu ac Is-Themâu a Nodwyd ........ 34

Atodiad B: Rhestr o'r Ymatebwyr ........ 37

Atodiad C Copi o'r Ymgynghoriad ........ 40

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

Rhaid i'r GIG fod yn rhywle lle mae diwylliant dysgu agored o beidio â bwrw bai yn ffynnu a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u parchu, beth bynnag fo'u cefndir

Mae gofal iechyd yn gynyddol gymhleth ac, weithiau, gall pobl ddioddef niwed. Pan fydd hynny'n digwydd, bydd ymateb cyrff y GIG i'r sefyllfaoedd hyn yn bwysig iawn, a gall wneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau pobl ac i'w perthynas barhaus â'u darparwr gofal. Mae hyn yn hollbwysig mewn lleoliadau gofal iechyd lle y bydd gan bobl yn aml berthynas hirsefydlog.

Yn gyffredinol, mae pobl am gael gwybod y gwir am yr hyn sydd wedi digwydd a chael sicrwydd bod gwersi wedi'u dysgu, lle bo hynny'n berthnasol. Mae angen cefnogi staff drwy'r broses hefyd.

Bydd cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd statudol ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru yn ategu'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol bresennol sy'n ofynnol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol unigol o dan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, a chyrff rheoleiddio proffesiynol eraill. Mae gan y ddyletswydd gonestrwydd statudol a'r dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol yr un nodau – bod yn agored ac yn dryloyw gyda phobl sy'n derbyn gofal a thriniaeth.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod camau amrywiol eisoes wedi'u cymryd gyda'r nod o ddatblygu "diwylliant o fod yn agored" yn y GIG yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno trefniadau Gweithio i Wella gyda'r egwyddor o Fod yn Agored, adrodd ar ac ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol yn well, adolygiadau o bob marwolaeth mewn ysbyty a bod Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), Ymddiriedolaethau'r GIG a Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Datganiadau Ansawdd Blynyddol. Yn ogystal, fel yn Lloegr a'r Alban, rydym hefyd wedi ceisio dysgu gwersi o achosion gwirioneddol pan achoswyd niwed ac o argymhellion adroddiadau ac adolygiadau cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi cyrff y GIG yng Nghymru mewn sefyllfa gref i weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd.

Er mwyn cyflawni ymrwymiad Gweinidogion Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu Canllawiau a Rheoliadau'r ddyletswydd gonestrwydd, fe wnaethom gychwyn ar broses ymgysylltu uchelgeisiol, a oedd yn cynnwys gweithdai i randdeiliaid a sesiynau canolbwyntio ar gleifion. Darparodd llawer o ymarferwyr proffesiynol, clinigwyr, cynrychiolwyr Colegau Brenhinol a chyrff proffesiynol a darparwyr gofal iechyd annibynnol ac, yn anad dim, aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a'u cynrychiolwyr adborth, sydd wedi ein harwain a'n cynorthwyo wrth baratoi'r Canllawiau a'r Rheoliadau drafft. Penllanw hyn oedd y broses ymgynghori gyhoeddus, y mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dadansoddiad ohoni.

Credwn y bydd gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yn llwyddiannus ar draws y GIG yng Nghymru yn annog gwell penderfyniadau ac, yn y pen draw, yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd.

## 2. Manylion yr Ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Ddyletswydd Gonestrwydd rhwng 20 Medi a 13 Rhagfyr 2022 ac, yn dilyn ceisiadau, cafodd ei ymestyn am ychydig ddyddiau tan 16 Rhagfyr 2022.

Cafwyd ymatebion mewn sawl ffordd:

- Ar-lein trwy borth Smart Survey
- Cyflwyno copi caled drwy’r e-bost
- Cwblhau'r ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen a'i chyflwyno drwy’r e-bost
- E-bost
- Llythyr
- Adborth llafar trwy sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth gyda Byrddau Gweithredol
- Grŵp rhanddeiliaid gyda phobl ifanc (14-20 oed).

Roedd yr ymgynghoriad eisiau barn ar sut i gyflwyno’r newidiadau angenrheidiol er mwyn gweithredu’r Ddyletswydd Gonestrwydd ac ymgynghorwyd ar:

- sut y bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei chyflwyno i sefydliadau'r GIG drwy ganllawiau statudol a rheoliadau statudol newydd
- diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 a chanllawiau 'Gweithio i Wella' 2023 er mwyn galluogi'r Ddyletswydd Gonestrwydd i weithredu gyda nhw.

Roedd holl ddogfennau’r ymgynghoriad ar gael ar y dudalen ganlynol: Dyletswydd Gonestrwydd | LLYW.CYMRU[1] ac mae rhestr ohonynt wedi'i darparu isod. Cynhyrchwyd fideo gwybodaeth gyhoeddus am y Ddyletswydd Gonestrwydd hefyd ac mae ar gael trwy'r ddolen hon (https://youtu.be/BFQBeOB3VCY).

- Dogfen ymgynghori
- Dogfen ymgynghori – hawdd ei ddeall
- Canllawiau statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd 2023
- Atodiad A – Proses adolygu sbardunau
- Atodiad B – Fframwaith lefelau niwed
- Atodiad C – Y Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd
- Atodiad D – Cefnogaeth i’r defnyddiwr gwasanaeth
- Atodiad E – Ymddiheuro’n ystyrlon
- Atodiad F – Proses adolygu a chadw cofnodion
- Atodiad G – Rhoi gwybod, cyhoeddi
- Atodiad H – Enghreifftiau o astudiaethau achos
- Atodiad I – Cwestiynau cyffredin
- Rheoliadau’r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023
- Putting Things Right guidance 2023. (Saesneg yn unig)


[1]https://www.gov.wales/dutycandour#:~:text=Ymgynghoriad%20description,wrong%20and%20harm%20has%20occurred.

# 3. Methodoleg Dadansoddi

Derbyniwyd yr holl ymatebion i'r Ymgynghoriad ar-lein drwy Smart Survey Llywodraeth Cymru. Cafodd yr ymatebion a ddaeth i law trwy'r e-bost, a oedd yn cynnwys copïau caled, ymatebion trwy lythyr a negeseuon e-bost, eu lanlwytho i'r Smart Survey hefyd i sicrhau bod set ddata lawn gyda fformat cyson ar gael i'w dadansoddi.

Cafodd holl ddata'r ymgynghoriad ei goladu a chwblhawyd dadansoddiad meintiol cychwynnol. Amlygodd hyn nifer yr ymatebion 'cyflawn' ac 'anghyflawn', y gyfradd ymateb fesul cwestiwn a'r ganran ydy/nac ydy ar gyfer y cwestiynau perthnasol. Rhoddodd y dadansoddiad meintiol cychwynnol o bob cwestiwn gyfle cynnar i amlygu meysydd y nododd ymatebwyr y byddai angen eu hystyried ymhellach.

Cafodd pob un o'r sylwadau a ddarparwyd gan ymatebwyr drwy gydol yr ymgynghoriad 40 cwestiwn eu coladu, ynghyd â rhif adnabod yr ymatebydd a ph'un a atebodd yr ymatebydd 'ydy/nac ydy' ai peidio ag ateb y cwestiwn. Roedd adegau pan nad oedd yn ofynnol i ymatebwyr ateb 'ydy/nac ydy', neu penderfynont beidio, ond gwnaethant roi sylw (amlinellir hyn yn Graffigyn 0.1 ar ffurf 'Sylwadau Eraill wedi'u Codio gyda Thema'). Yna, cawsant eu grwpio fesul cwestiwn a phennod; rhoddodd y camau uchod gyfle i ddadansoddi ymatebion mewn amryw ffordd. Mae'r penodau yn y dadansoddiad yn cyfateb i'r ddogfen ymgynghori, fodd bynnag mae is-benawdau wedi'u hamlinellu drwy'r adroddiad i gyd ac maent yn canolbwyntio ar feysydd diddordeb penodol yn y bennod.




Graffigyn 0.1: Dadansoddiad o nifer y sylwadau, a sylwadau wedi'u codio gyda thema.

Y cam nesaf a gymerwyd oedd y dadansoddiad ansoddol o sylwadau'r ymatebydd ar gyfer pob cwestiwn. Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 70 ymateb cyflawn a 60 anghyflawn ac, o'r cyfanswm hwn o 130 ymateb, cafwyd 1,123 o sylwadau. Gan ddefnyddio dull anwythol o ddadansoddi, adolygwyd ac ystyriwyd yr holl sylwadau, gan arwain at 4 thema gydag is-themâu yn gysylltiedig â phob un o'r themâu fel y'u nodir yn Atodiad A. Yn annibynnol, cynhaliodd adolygydd arall wiriad gweledol o'r themâu yn erbyn y sylwadau a gafwyd, a roddodd gonsensws ar gyfer y themâu a gynhyrchwyd.

Cafodd yr holl sylwadau eu hadolygu a, lle bo hynny'n berthnasol, eu codio gyda thema ac is-thema; roedd themâu ac is-themâu lluosog yn gysylltiedig â rhai sylwadau. Cafodd cyfanswm o 627 o sylwadau eu codio gydag o leiaf un thema, sy'n cyfateb i 56% o'r holl sylwadau. Roedd sylwadau ar ffurf 'Dd/B; Dim Sylw; Dim Ateb; Ddim yn Gwybod' yn cyfrif am 235 o ymatebion; o hidlo'r sylwadau hyn o'r dadansoddiad thematig, byddai canran y sylwadau a oedd â thema ynghlwm wrthynt yn codi i 70%.

Ar ôl adolygu'r holl sylwadau a, lle bo hynny'n berthnasol, eu codio gyda thema/themâu ac is-thema/is-themâu, dadansoddwyd y set ddata a'i chyflwyno gan ddefnyddio Microsoft Power BI. Roedd defnyddio meddalwedd Power BI yn rhoi'r cyfle i gyflwyno adroddiad rhyngweithiol a hwylus, gan gynnig y gallu i amlygu themâu ac is-themâu a oedd yn codi fesul cwestiwn, pennod, ymatebydd ac a atebodd yr ymatebydd yn gadarnhaol neu'n negyddol. Hefyd, rhoddodd y cyfle i dreiddio'n fanylach i bob thema ac is-thema i weld y sylwadau a roddwyd gan ymatebwyr a oedd wedi'u codio i'r thema/is-thema honno.

Tuedd Sampl:

Mae'n bwysig ystyried maint y sampl wrth ddadansoddi data ac, yn achos yr ymgynghoriad hwn, nifer yr ymatebwyr oedd hynny. Mae poblogaeth Cymru[2] yn 3,107,500, felly er mwyn cyrraedd lefel hyder o 95% (gan ganiatáu ar gyfer cyfradd gwallau o 9%), roedd angen 119 o ymatebwyr arnom. Rydym yn cydnabod bod tuedd sampl sylweddol wedi'i chyflwyno, er mewn modd cadarnhaol, gan fod mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n sefydliadau'r GIG neu'n grwpiau proffesiynol sy'n cefnogi staff y GIG ar ryw ffurf neu'i gilydd.

Rydym yn cydnabod ac yn derbyn bod nifer isel yr ymatebion gan ddinasyddion/defnyddwyr gwasanaethau yn dangos bod y canlyniadau a gafwyd yn llai perthnasol i boblogaeth ehangach Cymru. Serch hynny, cawsant oll eu dadansoddi'n ofalus a'u cynnwys yn adroddiad cryno'r ymgynghoriad. Er gwaethaf y nifer isel hwn, rydym yn cydnabod hefyd bod ymatebion wedi dod i law gan sefydliadau trydydd sector a grwpiau eiriolaeth fel y Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau), a allai hefyd rannu barn Dinasyddion yn ehangach.

Rydym wedi ystyried y rhesymeg wrth wraidd y nifer isel o ymatebion, ac yn cydnabod y gallai maint, cymhlethdod a nifer y dogfennau i'w darllen, yn ogystal ag amseriad yr ymgynghoriad, fod wedi bod yn ffactorau. Cynhyrchwyd fideo ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn yr ymgynghoriad ac roedd ar gael ar dudalen yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa gyrhaeddiad pellach a gafodd y fideo hwn trwy sianeli cyfathrebu eraill. Mae'r rhain yn wersi a fydd yn cael eu rhannu i ddysgu cymaint â phosibl ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

O ddadansoddi'r ymatebwyr ymhellach, ceir sicrwydd bod y canlyniadau'n cynrychioli'r safbwyntiau proffesiynol ar draws tirwedd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn gryf, wrth i bob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth y GIG, Awdurdod Iechyd Arbennig, a llawer o sefydliadau proffesiynol eraill (e.e. Colegau Brenhinol) ymateb i'r ymgynghoriad.

[2] Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021

## 4. Crynodeb o'r Ymatebwyr

Cynhyrchodd yr ymgynghoriad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd gyfanswm o 70 ymateb cyflawn a 60 ymateb anghyflawn. Ymatebion cyflawn yw'r rhai a gyflwynwyd fel rhai terfynol, gyda mwyafrif y cwestiynau, ond nid pob un ohonynt, wedi'u hateb. Ni chafodd ymatebion anghyflawn eu cwblhau'n derfynol cyn dyddiad gorffen yr ymgynghoriad ac, mewn sawl achos, ni atebwyd unrhyw gwestiynau o gwbl.

Nid oedd yr ymgynghoriad yn mynnu bod pob cwestiwn yn cael ei ateb cyn ei gyflwyno ac, ar gyfartaledd, ar gyfer y 70 cyflwyniad cyflawn, roedd 52 o ymatebion i bob un o'r 40 cwestiwn (cyfradd cwblhau o 75%).

Ar gyfer y 60 o ymatebion anghyflawn, nifer yr ymatebion ar gyfartaledd ar gyfer pob un o'r 40 cwestiwn oedd 1 yn unig (cyfradd cwblhau o 2%).

Drwy gydol yr adroddiad, lle mae cwestiynau wedi'u hateb mewn cyflwyniad anghyflawn, mae eu ffigurau wedi'u cynnwys yn y canrannau ydy/nac ydy, a chofnodwyd ac ystyriwyd sylwadau gan yr ymatebwyr hyn yn y dadansoddiad thematig.

O'r 70 ymateb cyflawn, nododd 50 o ymatebwyr sefydliad proffesiynol cysylltiedig, nododd 5 eu bod yn ddefnyddwyr gwasanaethau neu'n ddinasyddion ac ni roddodd 2 ymateb i'r cwestiwn hwn. O fewn y rhestr, cydnabyddir bod 13 o ymatebwyr wedi nodi eu bod am aros yn ddienw.

Dyma'r dadansoddiad o'r ymatebwyr a gyflwynodd ymatebion cyflawn:

- 14 cynrychiolydd/sefydliad y GIG e.e. Byrddau iechyd neu ymddiriedolaethau'r GIG
- 25 o gymdeithasau proffesiynol e.e. Colegau Brenhinol, Cynghorau Iechyd Cymuned, Cymdeithasau Cyfreithiol
- 3 elusen e.e. Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTFWW), Anabledd Dysgu Cymru (LDW)
- 8 darparwr annibynnol e.e. ysbytai annibynnol, deintyddfeydd annibynnol
- 5 gan ddinasyddion/defnyddwyr gwasanaethau; ac
- Ni atebodd 2 y cwestiwn.

Roedd 60 o ymatebion anghyflawn hefyd nad oeddent yn rhestru ateb.
Ceir rhestr o'r ymatebwyr ynghyd â'u sefydliadau cysylltiedig yn Atodiad B[3].

[3] Gofynnodd 13 o ymatebwyr am aros yn ddienw

# 5. Crynodeb o Ymatebion fesul Pennod

## 5.1 Pennod 1: Canllawiau Statudol ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd

### Canllawiau a Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd

Roedd yr adran hon ym Mhennod 1 yr ymgynghoriad yn gwahodd ymatebwyr i amlygu eu barn am Ganllawiau'r Ddyletswydd Gonestrwydd, yn ogystal â pha mor ddefnyddiol fydd yr adnoddau ategol a'r astudiaethau achos, yn eu barn nhw, wrth helpu i weithredu'r Ddyletswydd.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C1 | A yw'r Canllawiau ynghylch pryd y bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol yn glir? | 72 | 87.5% | 12.5% |
| C2 | A yw'r siart lif yn Atodiad A yn adnodd defnyddiol ar gyfer penderfynu a yw'r ddyletswydd wedi cael ei sbarduno? | 62 | 91.9% | 8.1% |
| C3 | A yw'r canllawiau a'r astudiaethau achos yn ddefnyddiol wrth benderfynu beth a olygir wrth niwed "y gallai" rhywun ei ddioddef? | 62 | 85.5% | 14.5% |
| C6 | Ydych chi'n credu bod yr enghreifftiau o astudiaethau achos a nodir yn Atodiad H yn ddigon cynhwysfawr i egluro pryd y byddai'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei defnyddio? | 59 | 81.4% | 18.6% |
| C8 | A yw'r canllawiau ar y ffordd y bydd y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn gweithio, sydd i'w gweld ar dudalen 11 o'r canllawiau, yn glir? | 53 | 94.3% | 5.7% |
| C9 | A yw'r siartiau llif yn Atodiadau C ac F1 yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ddeall sut y bydd y weithdrefn yn gweithio? | 54 | 98.1% | 1.9% |

Graffigyn 1.1: Cwestiynau Pennod 1 (Canllawiau a Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd), nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydyn/nac ydyn.

Fel yr amlygwyd uchod (graffigyn 1.1), roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau ynghylch pryd y bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol, a'r ffordd y bydd y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn gweithio, yn glir.

Teimlai 9 ymatebydd nad oedd y canllawiau ynghylch pryd y bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol yn glir, a'r brif thema ymhlith yr ymatebion hynny oedd yr angen am ragor o wybodaeth neu eglurder; ac yn fwy penodol ynghylch y diffiniad o niwed, rhestrau aros a'r derminoleg a ddefnyddir yn y canllawiau. Hefyd, gofynnodd nifer fach o ymatebwyr at bwy yr oedd y canllawiau wedi'u hanelu, aelodau staff unigol neu sefydliadau? Gofynnodd eraill a allai cleifion a'u heiriolwyr sbarduno'r Ddyletswydd; codwyd y pwynt olaf hwn yn ddiweddarach yn yr ymgynghoriad hefyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Rydym yn croesawu'r adborth hwn ac rydym wedi ysgrifennu pennod newydd yn y canllawiau statudol ar niwed, wedi gwella'r diffiniadau, wedi rhoi mwy o eglurder ynghylch yr adran ar restrau aros ac wedi diwygio'r derminoleg drwyddi draw. Er bod y canllawiau wedi'u hanelu'n benodol at sefydliadau'r GIG, bydd hyn yn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u heiriolwyr.

Is-thema gyffredin arall ymhlith ymatebwyr oedd yr angen am ystyriaeth bellach ynghylch y berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd a pholisïau a darparwyr gwasanaethau eraill. Amlygodd rhai ymatebwyr fod angen i'r canllawiau amlinellu rôl darparwyr gwasanaethau annibynnol a gomisiynir gan Gorff y GIG i ddarparu triniaeth a gofal.

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 76 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 27 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 13 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 13 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 39 |
| Diffiniad o Niwed (Goddrychedd) | 13 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 13 |
| Terminoleg | 10 |
| Amseroedd/Rhestrau Aros – Mynediad i Ofal | 8 |
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 7 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 7 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 6 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 6 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 5 |
| Cyfathrebu | 4 |
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 4 |
| Dyletswydd Broffesiynol a Statudol | 3 |
| Grwpiau Agored i Niwed | 2 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 1 |
| Arall | 1 |

Graffigyn 1.2: Pennod 1 (Canllawiau a Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd) – y themâu a'r is-themâu a nodwyd.

Nod cwestiynau 2, 3, 6 a 9 oedd pennu a oedd ymatebwyr o'r farn bod y siartiau llif a'r astudiaethau achos sy'n ategu'r canllawiau yn gymhorthion clir a defnyddiol ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol, fodd bynnag, y thema gyson o'r sylwadau a roddwyd oedd bod angen eglurder neu wybodaeth bellach; yn benodol, ceisiadau am ragor o fanylion o fewn yr astudiaethau achos a'r siartiau llif, neu enghreifftiau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau neu sefyllfaoedd penodol a allai godi.

Dywedodd un elusen genedlaethol a arweinir gan gleifion: "Roedd cyfranogwyr yn pryderu nad oedd digon o enghreifftiau o gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol [ac] roeddent hefyd yn teimlo bod angen astudiaethau achos sy'n cyfeirio at bobl sy'n defnyddio gwasanaethau niwroddargyfeiriol" (Triniaeth Deg i Ferched Cymru, Cwestiwn 3).

Roedd y thema a'r is-thema hon yn amlwg yn y sylwadau ar gyfer Cwestiwn 6, a oedd â'r gwahaniaeth mwyaf yn yr ymatebion yn y bennod hon. Gan adeiladu ar hyn, awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid creu llyfrgell o astudiaethau achos yn amlygu pryd yr oedd y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i sbarduno, gan hyrwyddo arfer da wedi hynny, a rhannu gwybodaeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Mae'r siartiau llif wedi'u diweddaru ac mae'r astudiaethau achos wedi'u hadolygu, gan arwain at gynnwys astudiaethau achos ychwanegol. Mae'r rhain bellach yn darparu'n benodol enghreifftiau gwell o niwed seicolegol, iechyd meddwl, sgîl-effeithiau a chymhlethdodau. Fel rhan o'r broses hon, ymgynghorom â'r Fforwm Defnyddwyr Iechyd Meddwl, arbenigwyr clinigol sy'n gweithio yn y GIG a grŵp rhanddeiliaid Plant a Phobl Ifanc.

## Canllawiau a Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd (Fframwaith Lefelau Niwed)

Roedd yr adran hon ym Mhennod 1 yr ymgynghoriad yn gwahodd ymatebwyr i amlygu eu barn am y canllawiau a ddarparwyd ynghylch y Ddyletswydd Gonestrwydd ac, yn benodol, y fframwaith lefelau niwed.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C4 | Ydych chi'n cytuno bod pennu'r trothwy ar gyfer sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd ar lefel niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi gwybod i Ddefnyddwyr Gwasanaethau a pheidio â rhoi gormod o faich ar ddarparwyr y GIG? | 60 | 83.3% | 16.7% |
| C5 | A yw'r fframwaith niwed yn Atodiad B yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y math o niwed a fydd yn perthyn i gategorïau niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth? | 62 | 90.3% | 9.7% |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 31 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 8 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 5 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 5 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Diffiniad o Niwed (Goddrychedd) | 24 |
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 5 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 4 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 4 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 3 |
| Cyfathrebu | 3 |
| Terminoleg | 2 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 2 |
| Dyletswydd Broffesiynol a Statudol | 1 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 1 |

Graffigyn 1.3: Cwestiynau Pennod 1 Canllawiau a Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd (Fframwaith Lefelau Niwed), nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydw/nac ydw – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Roedd dros 80% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r trothwy ar gyfer sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd fod yn niwed cymedrol, yn niwed difrifol, neu'n farwolaeth. Fodd bynnag, roedd 10 o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn ac, o'u sylwadau, y prif is-thema oedd bod angen mwy o eglurder a bod angen ystyried y diffiniad o niwed a chategorïau cysylltiedig oherwydd goddrychedd posibl. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai unrhyw niwed y mae'r claf/defnyddiwr gwasanaeth yn ei brofi fod yn sbardun i'r Ddyletswydd, ac amlygodd eraill y ffaith y gallai diffiniad y defnyddwyr gwasanaeth o niwed fod yn wahanol i'r darparwyr gwasanaeth, gan mai hwy yw'r rhai sy'n profi'r niwed.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ymwneud â bod yn agored ac yn onest pan aiff pethau o chwith, pan fydd niwed yn digwydd, ac mae hyn ar hyn o bryd wedi'i osod ar lefel gymedrol neu uwch. Digwyddiadau 'Dim niwed' a 'Niwed Isel' yw mwyafrif y digwyddiadau caeedig (83,408) y flwyddyn, gyda digwyddiadau cymedrol neu uwch yn dod i gyfanswm o 7,127 (7.87%).

Mae cyrff y GIG yn dal i ymchwilio i ddigwyddiadau Niwed Isel a rhai y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a dysgir gwersi o'r rhain, ond gan mai ychydig o niwed a gafwyd neu ni chafwyd niwed o gwbl (hynny yw, ymyrrodd staff i'w atal rhag digwydd), nid oes angen gosod baich sbarduno dyletswydd sefydliadol ar y sefydliad.

Yr adborth gan randdeiliaid wrth ddatblygu'r bwriad polisi gwreiddiol oedd y dylai'r Ddyletswydd Gonestrwydd gael ei sbarduno'n gymesur. Byddai caniatáu i bob digwyddiad sbarduno'r Ddyletswydd yn golygu y byddai sefydliadau'n cael trafferth i'w gweithredu'n llawn a byddem yn colli'r cyfle i newid y diwylliant fel y bwriadwyd drwy ganolbwyntio ar y rhai a niweidiwyd. Mae cryn dystiolaeth bod angen cydnabod rôl gonestrwydd wrth ymateb i anaf corfforol a seicolegol y cafodd defnyddiwr gwasanaeth ac, felly, rydym yn bwriadu sbarduno'r Ddyletswydd pan fydd y niwed yn gymedrol neu'n uwch.

Amlygwyd hefyd y byddai nifer presennol y digwyddiadau diogelwch cleifion 'cymedrol neu uwch' yn arwain at yr angen am adnoddau staffio ychwanegol i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Pwysleisiodd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r trothwy arfaethedig hefyd y bydd angen dadansoddi lefel yr effaith ar lwythi gwaith i sicrhau nad yw'n gorlwytho gwasanaethau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae dadansoddiad data diweddar gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan holl Gyrff y GIG yn dangos y byddai 7.8% o'r digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, a oedd wedi'u cau, yn sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd bob blwyddyn (h.y. niwed cymedrol neu uwch). Mae hyn yn seiliedig ar raddio cywir ar ddiwedd yr ymchwiliad, wedi'i ddilysu gan Gronfa Risg Cymru. Yn ogystal, mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gyhoeddi sy'n dadansoddi'r amser y mae'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn ei gymryd gyda'r amser ychwanegol sy'n ofynnol i'w chwblhau. Mae hwn hefyd wedi'i gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Er bod yr ymateb cyffredinol i'r cwestiynau yn y bennod hon yn cytuno bod y canllawiau'n glir, y thema a nodwyd amlaf oedd bod angen ystyried a datblygu'r diffiniad o niwed a'r enghreifftiau a ddarparwyd ymhellach. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen am gynnwys rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o niwed seicolegol yn y canllawiau. Hefyd, awgrymodd ymatebwr arall y gallai fod angen mwy o enghreifftiau o'r categorïau niwed 'isel' ac 'ychydig' o niwed i helpu clinigwyr i benderfynu pryd y dylid sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Fel y nododd un dinesydd/defnyddiwr gwasanaeth: "Mae angen iddi fod yn glir bod niwed seicolegol yn cynnwys sbarduno ymatebion trawma neu broblemau iechyd meddwl, gwaethygu symptomau seicolegol neu atal gwellhad o broblemau iechyd meddwl, yn enwedig pan fo hyn am gyfnodau hir" (Dinesydd/Defnyddiwr Gwasanaeth, Cwestiwn 1).

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn croesawu'r adborth hwn ac yn cydnabod yr angen am ddatblygu'r fframwaith niwed a'r enghreifftiau o niwed seicolegol ymhellach. Mae'r rhain wedi'u datblygu ymhellach yn dilyn ymwneud rhanddeiliaid â'r Fforwm Defnyddwyr Iechyd Meddwl (grŵp cleifion). Mae mwy o enghreifftiau bellach wedi'u darparu ar gyfer pob categori sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd i ddangos sut mae'r categori niwed seicolegol yn cael ei gymhwyso yn ogystal ag astudiaethau achos clinigol eraill ar draws y sbectrwm niwed i ddangos pryd i sbarduno'r ddyletswydd a phryd i beidio.

## Y berthynas â dyletswyddau proffesiynol

Roedd yr adran hon o'r bennod yn cynnwys un cwestiwn yn ceisio barn yr ymatebwyr ynghylch a oedd y berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol a'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol newydd yn glir.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C7 | A yw'r berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol y mae llawer o weithwyr iechyd proffesiynol yn gorfod ei dilyn a'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol yn glir? | 58 | 82.8% | 17.2% |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 15 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 4 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 4 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 1 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Dyletswydd Broffesiynol a Statudol | 10 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 3 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 3 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 2 |
| Terminoleg | 2 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 1 |
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 1 |
| Cyfathrebu | 1 |
| Arall | 1 |

Graffigyn 1.4: Cwestiwn Pennod 1 (Y berthynas â dyletswyddau proffesiynol), nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydy/nac ydy – themâu ac is-themâu a nodwyd.

O'r 58 ymateb i'r cwestiwn hwn, amlygodd 10 o ymatebwyr nad oeddent yn teimlo bod y berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol a statudol yn glir. Amlygodd 7 o'r 10 ymatebydd hynny fod angen mwy o wybodaeth neu eglurder ynghylch y berthynas hon yn y canllawiau. Teimlai un ymatebwr y gallai'r canlynol gael ei wneud yn gliriach: 'a ddisgwylir i weithwyr proffesiynol barhau â'u Dyletswydd Gonestrwydd broffesiynol unigol ac unrhyw Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n cael ei sbarduno drwy'r sefydliad y maent yn gweithio iddo'. Dywedodd un arall y byddent yn croesawu 'eglurhad ynghylch dyletswyddau a chyfyngiadau goblygiadau'r clinigwr unigol [yn erbyn] corff y GIG'. Amlygodd eraill nad yw'n ymddangos bod trothwy a therminoleg y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol a statudol yn cyd-fynd. Er enghraifft, cyfeiriodd un ymatebwr at y ddyletswydd broffesiynol o fewn 'Good Medical Practice' y GMC, sy'n cael ei gweithredu 'pan fydd claf yn dioddef "niwed neu drallod" pan aiff pethau o chwith. Felly, mae hwn yn drothwy is, ac mae'n debygol y bydd y ddyletswydd broffesiynol yn cael ei sbarduno'n amlach'.

Er bod llawer o ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n glir, amlygodd rhai y dylid darparu hyfforddiant a chymorth i sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd statudol a phroffesiynol, a'r disgwyliadau ar aelodau staff.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn ddiolchgar am yr adborth hwn ac rydym wedi diwygio'r adran i wella eglurder. Mae'r ddyletswydd broffesiynol yn un sy'n canolbwyntio ar ymarfer y gweithiwr proffesiynol ei hun ac ar unrhyw weithred neu anwaith a allai fod wedi arwain at niwed a gafodd defnyddiwr gwasanaeth dan ei ofal. Mae'r ddyletswydd sefydliadol yn un sy'n cwmpasu'r holl ofal iechyd a ddarparwyd, weithiau gan weithwyr proffesiynol lluosog, ac ymddiheurir am weithredoedd a/neu anweithiau sy'n deillio o ymarfer pobl eraill. Bydd dyletswydd gyfreithiol ar gorff y GIG yng Nghymru i gymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd i bob defnyddiwr gwasanaeth y maent yn darparu gofal iechyd iddynt. Mae hyn i'r gwrthwyneb i'r ddyletswydd broffesiynol, sy'n safon broffesiynol i'r cofrestrai.

## Gwasanaethau a Gomisiynir

Gofynnodd yr adran hon o'r ymgynghoriad i ymatebwyr a yw canllawiau'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn glir yn gysylltiedig â gwasanaethau a gomisiynir, ac a oedd y siart llif ategol yn amlygu'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C10 | A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol i wasanaethau a gomisiynir? | 56 | 83.9% | 16.1% |
| C11 | Mae'r siart lif gweithdrefn yn Atodiad A1 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd gwasanaethau wedi'u comisiynu. A yw'r broses yn glir? | 52 | 90.4% | 9.6% |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Llywodraethu a Goruchwylio | 16 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 14 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 2 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 11 |
| Terminoleg | 8 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 4 |
| Arall | 2 |
| Amseroedd/Rhestrau Aros – Mynediad i Ofal | 1 |
| Grwpiau Agored i Niwed | 1 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 1 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 1 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 1 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 1 |

Graffigyn 1.5: Cwestiynau Pennod 1 (Gwasanaethau a Gomisiynir), nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydyn/nac ydyn – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Roedd dros 80% o'r ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau a siart llif y gweithdrefnau yn gysylltiedig â gwasanaethau a gomisiynir yn glir. Fodd bynnag, daeth thema i'r amlwg ymhlith cyfranogwyr yn ymwneud â llywodraethu a goruchwylio ac, yn fwy penodol, pwy oedd yn gyfrifol am sbarduno ac yna rheoli gweithdrefnau'r Ddyletswydd Gonestrwydd mewn sefyllfaoedd penodol. Ymhlith yr enghreifftiau a amlygwyd i'w hystyried ymhellach oedd pan fo darpariaethau gofal cymdeithasol neu ddarparwyr annibynnol yn cael eu comisiynu gan Gorff Iechyd y GIG, a phan fo gofal wedi'i ddarparu gan nifer o Gyrff Iechyd y GIG ar draws ffiniau (gan gynnwys Cymru a Lloegr). Roedd yr ymholiadau'n ymwneud â phwy ddylai gymryd cyfrifoldeb, yn enwedig os oes gwahaniaeth barn ynglŷn â phwy sydd ar fai.

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd fod angen mwy o eglurder ynghylch y derminoleg a ddefnyddir yn y canllawiau a'r siart llif ategol. Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith nad yw'r canllawiau'n nodi'n benodol rôl gwirfoddolwyr o fewn gwasanaethau, a thynnodd eraill sylw at y ffaith y gellid camddehongli bod Atodiad A1 'yn awgrymu os nad yw darparwr yn gorff y GIG, nid yw'r Ddyletswydd yn berthnasol iddynt'.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**:

Rydym wedi bod yn ymwybodol iawn bod gwasanaethau’r GIG yng Nghymru yn cynnwys perthnasoedd cymhleth, y mae rhai ohonynt yn cael eu comisiynu a rhai ohonynt yn cael eu lletya. Rydym yn cydnabod bod y perthnasoedd yn y gwasanaethau sy’n darparu gofal ar ran corff arall yn aml yn unigryw, sy’n ei gwneud hi’n anodd ysgrifennu canllawiau cyffredinol. Rydym wedi adolygu a chryfhau'r wybodaeth yn yr adran hon ac yn y siart llif, gan sôn yn benodol am y berthynas sy’n cael ei lletya.

Rydym wedi lleihau’r manylion mewn rhai meysydd i sicrhau ein bod yn parhau i fod mor glir ag y gallwn ac yn nes at y ddeddfwriaeth o ran pwy sy’n gyfrifol am y Ddyletswydd. Mae hyn yn golygu y dylai sefydliadau hefyd ddatblygu systemau adrodd a llywodraethu sy'n adlewyrchu orau'r berthynas â'r darparwr y maent wedi comisiynu gwasanaethau ganddo.

Rydym wedi cynnwys adran newydd sy’n esbonio’r berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd mewn gofal cymdeithasol a’r Ddyletswydd Gonestrwydd yn y GIG. Rydym wedi manylu ar yr angen i bartneriaid gofal cymdeithasol a gofal iechyd ddod at ei gilydd i leihau’r dyblygu neu’r hysbysiadau lluosog gyda defnyddiwr gwasanaeth neu deulu lle mae niwed sylweddol wedi digwydd. Ystyrir bod hyn yn arfer gorau i'w ddisgwyl gan bob partner yn gyfartal.

Lle gallai mwy nag un corff y GIG ymwneud â llwybr gofal claf sydd wedi cael niwed, rydym wedi cryfhau’r adran sy’n ymwneud â disgwyliadau clir ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar y cyd yn gysylltiedig â chyfathrebu â’r claf a rhannu gwybodaeth er mwyn galluogi un partner neu bartner arall i gyflawni eu dyletswydd o dan y ddeddf.

Mae siart llif yr Atodiad wedi'i wneud yn gliriach. Y ffordd orau o ddeall y cwestiwn a godwyd ynghylch a yw gwasanaethau gwirfoddol yn dod o dan y ddyletswydd gonestrwydd, a sut, yw eu bod yn ymrwymo i gontract o ryw fath neu'i gilydd gyda chorff y GIG i weithredu o fewn gwasanaethau corff y GIG. Ystyrir felly bod hynny yr un peth â chomisiynu corff nad yw'n gorff y GIG. Fodd bynnag, rhaid iddo fod yn gysylltiedig â darparu gofal iechyd fel y'i diffinnir yn y ddeddf.

## Rhestrau Aros (Niwed)

Gofynnodd yr adran hon o'r ymgynghoriad i ymatebwyr a oedd y canllawiau'n glir ynghylch sbarduno'r Ddyletswydd pan fo niwed yn digwydd wrth i ddefnyddwyr gwasanaeth aros am brofion diagnostig a thriniaeth. Gan adeiladu ar hyn, gofynnodd hefyd i ymatebwyr pa eglurhad pellach a fyddai’n ddefnyddiol i ddefnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau’r GIG er mwyn deall pryd fyddai’r Ddyletswydd yn cael ei sbarduno yn gysylltiedig â niwed sy’n digwydd wrth i ddefnyddwyr gwasanaeth aros am brofion diagnostig a thriniaeth.

| Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|
| C12 A yw'r canllawiau'n glir ynghylch pryd y bydd niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n digwydd wrth aros am brofion diagnostig a thriniaeth yn sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd? | 58 | 74.1% | 25.9% |
| C13 Yn eich barn chi, pa eglurhad pellach fyddai'n ddefnyddiol i sefydliadau'r GIG a defnyddwyr gwasanaethau o ran niwed a geir wrth aros am brofion diagnostig a thriniaeth? Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach. | 43 | | |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 37 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 11 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 11 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 4 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Amseroedd/Rhestrau Aros – Mynediad i Ofal | 18 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 13 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 7 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 5 |
| Diffiniad o Niwed (Goddrychedd) | 4 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 4 |
| Cyfathrebu | 4 |
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 3 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 2 |
| Terminoleg | 1 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 1 |
| Arall | 1 |

Graffigyn 1.6: Cwestiynau Pennod 1 (Rhestrau Aros (Niwed)), nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydyn/nac ydyn – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Roedd chwarter yr ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau ynghylch niwed sy'n digwydd wrth aros am brofion diagnostig a thriniaeth yn aneglur. Y brif thema o'r ymatebion oedd bod angen rhagor o wybodaeth ac eglurder ynghylch amseroedd aros, y niwed dilynol a achosir, ac ym mha sefyllfa y byddai'r ddyletswydd yn cael ei sbarduno.

Cododd ymatebwyr nifer o senarios, a gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch niwed anfwriadol ac annisgwyl a achosir gan amseroedd aros gormodol. Cododd ymatebwyr ymholiadau megis: 'Er y dywedir y byddai'n annisgwyl pan fo defnyddiwr gwasanaeth wedi'i hepgor oddi ar restr yn anghywir neu heb ei flaenoriaethu gan arwain at niwed, oni fyddai'n rhagweladwy y gallai defnyddiwr gwasanaeth fynd ymlaen i ddioddef niwed pe na bai'n cael ei drin yn amserol, gan felly achosi niwed disgwyliedig posibl?'

Teimlai eraill fod dirywio sy'n arwain at niwed tra ar restr aros yn 'anfwriadol' ac, felly, y dylai sbarduno'r Ddyletswydd pan fydd y trothwy niwed yn cael ei fodloni. Fel y nodwyd yn y graffigyn uchod, gofynnodd llawer o gyfranogwyr am astudiaethau achos pellach gyda mwy o fanylion i gefnogi rhoi'r Ddyletswydd ar waith yn y maes hwn.

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd y gallai fod angen ystyried y berthynas â chanllawiau eraill yn yr adran hon o'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Enghreifftiau o ganllawiau o'r fath a amlinellwyd oedd canllawiau NICE ynghylch amseroedd aros, a Thargedau Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT), ac awgrymodd ymatebwr arall y gallai fod yn ddefnyddiol cysylltu â 'Mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMS) a Mesurau profiadau a adroddir gan gleifion (PREMS) ac a fu unrhyw gydberthynas â niwed a gafwyd wrth aros am brofion diagnostig a thriniaeth a chanlyniad/profiad unigolyn'.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y diffyg adnoddau mewn rhai meysydd o sefydliadau'r GIG, gan gynnwys rheoli rhestrau aros, a nodwyd y gallai hyn achosi anawsterau wrth weithredu'r adran hon o'r canllawiau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn gwerthfawrogi'r ymatebion sy'n ymwneud â'r adran ar niwed sy'n digwydd i gleifion yn ystod yr oedi wrth aros am driniaeth neu brofion diagnostig.

Rydym yn cydnabod, oherwydd y pandemig byd-eang, fod llawer mwy o gleifion ar restrau aros na phan gafodd Deddf Ansawdd ac Ymgysylltiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru 2020 Gydsyniad Brenhinol. Rydym wedi deall yn glir bryderon dinasyddion a staff ynghylch nifer y cleifion sy'n aros am ofal a sut y gallai'r amser aros hwnnw effeithio arnynt ar ffurf niwed.

Gwnaethom ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ynghylch y mater hwn ac rydym wedi cynnwys rhai pwyntiau a godwyd wrth ailysgrifennu'r adran, ac mae bellach wedi'i chynnwys fel rhan o'r bennod ar niwed.

Roeddem hefyd yn cydnabod nad yw rhestrau aros a phrofion diagnostig yn ymwneud yn gyfan gwbl â gofal eilaidd a bod llawer o restrau aros yn bodoli mewn amgylcheddau gofal sylfaenol.

Rydym yn derbyn y gall fod adnoddau i reoli rhai rhestrau mewn rhai sefydliadau fod yn anghyfartal, ond mae'r canllawiau a'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn parhau'n annatod, ynghyd â'r Ddyletswydd Ansawdd, i wella diwylliant sefydliadau sy'n darparu gofal i'n poblogaethau.

## Gofynion Adrodd

Gofynnodd yr adran hon i ymatebwyr a oeddent o'r farn bod y gofyniad a'r broses ddilynol i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gyhoeddi eu hadroddiadau Dyletswydd Gonestrwydd yn glir.

Hefyd, gofynnodd a oedd y dyddiadau adrodd arfaethedig yn rhesymol ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol a Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, ac Awdurdodau Iechyd Arbennig. Yn olaf, gofynnodd a oedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn rhesymol i'r adroddiad Dyletswydd Gonestrwydd blynyddol gyd-fynd â'r adroddiad presennol ar gyfer Gweithio i Wella (PTR).

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C14 | A yw'r gofyniad i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gyhoeddi eu hadroddiadau Gonestrwydd yn glir? | 54 | 98.1% | 1.9% |
| C15 | O ran y siart lif ar gyfer adroddiadau a nodir yn Atodiad G, a yw'r broses yn glir? | 54 | 96.3% | 3.7% |
| C16 | A yw'r dyddiadau adrodd blynyddol, sef 30 Medi ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol a 31 Hydref ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, yn rhesymol? | 51 | 84.3% | 15.7% |
| C17 | A yw'n rhesymol awgrymu y dylai'r adroddiad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd gyd-fynd â'r adroddiad blynyddol ar gyfer Gweithio i Wella sydd eisoes ar waith er mwyn osgoi dyblygu? | 52 | 96.2% | 3.8% |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Llywodraethu a Goruchwylio | 18 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 13 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 12 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 4 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 9 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 9 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 8 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 5 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 4 |
| Dyletswydd Broffesiynol a Statudol | 3 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 3 |
| Arall | 2 |
| Diffiniad o Niwed (Goddrychedd) | 1 |
| Terminoleg | 1 |
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 1 |

Graffigyn 1.7: Cwestiynau Pennod 1 (Gofynion Adrodd), nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydy/nac ydy – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn cytuno bod y gofyniad a'r broses i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gyhoeddi eu hadroddiadau gonestrwydd yn glir. Roedd consensws hefyd ymhlith ymatebwyr y dylai'r adroddiad gyd-fynd ag adroddiad blynyddol presennol Gweithio i Wella (PTR), er mwyn osgoi dyblygu.

Amlygodd pob un o'r 8 ymatebydd a atebodd 'Nac ydyn' i gwestiwn 16, y gallai fod yn anodd cyflawni'r amserlenni adrodd, sef 30 Medi ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol a 31 Hydref ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn nad yw gadael mis yn unig rhwng bod Cyrff Iechyd yn derbyn gwybodaeth gan wasanaethau gofal sylfaenol a chyhoeddi'r adroddiad efallai'n ddigon hir. Awgrymodd rhai y gallai'r terfyn amser byr hwn arwain at fethu data neu wybodaeth bwysig.

Roedd un is-thema a gododd yn rheolaidd yn yr adran hon yn ymwneud ag amser, staff ac adnoddau, a chodwyd pryderon am y cynnydd mewn llwyth gwaith y gallai adrodd ei achosi. Amlygwyd y bydd angen ystyried effaith y cynnydd hwn mewn llwyth gwaith o ystyried maint posibl y gwaith y bydd ei angen

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Cyhoeddir adroddiad Gweithio i Wella ym mis Medi. Nid yw'n fwriad i sefydliadau dderbyn gwerth blwyddyn gyfan o ddata mewn mis, ond eu bod yn derbyn y data yn rheolaidd trwy Datix Cymru fel y gall y data gael ei brosesu a'i ddadansoddi'n haws ac yn, bwysicach na hynny, bod y dysgu sydd wedi digwydd yn cael ei brosesu a'i ddadansoddi'n haws. Rhagwelir y bydd y dadansoddiad a'r dysgu hyn yn cael eu rhannu'n rheolaidd drwy'r system rheoli ansawdd ar draws sefydliadau, yn ogystal â thu hwnt iddynt, er mwyn gwella diogelwch y gofal a ddarperir. Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru fod y data o'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i leihau camgymeriadau, annog dysgu a gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau a staff sy'n gweithio yn y sefydliadau hynny.

I'r sefydliadau hynny nad ydynt yn dod o dan ganllawiau a rheoliadau Gweithio i Wella, gall eu hadroddiad blynyddol nhw gael ei gyhoeddi fel adroddiad annibynnol neu fel rhan o'u hadroddiad presennol ar ansawdd neu brofiad y claf.

Er ein bod yn cydnabod mai newydd ei chyflwyno yng Nghymru y mae'r Ddyletswydd, dylid cofio bod sefydliadau eisoes yn adrodd ar lawer iawn o ddata digwyddiadau diogelwch cleifion ac mae system newydd Datix Cymru wedi'i sefydlu i leihau'r adnoddau y mae eu hangen i harneisio'r data hwn mewn ffordd ddefnyddiol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen i sefydliadau gynnal asesiad o ofynion adnoddau a fyddai'n sensitif i anghenion a systemau lleol i sicrhau eu bod yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddeddf. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddatblygu ar y cyd â sefydliadau rhanddeiliaid y GIG ac mae'n adlewyrchu'r asesiad hwn yn ehangach.

## 5.2 Pennod 2: Rheoliadau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd

### Rhoi Gwybod, Cysylltu ac Ymddiheuriad

Gofynnodd yr adran hon o'r dadansoddiad i ymatebwyr a oeddent o'r farn bod y canllawiau ynghylch y weithdrefn rhoi gwybod, cysylltu ac ymddiheuriad ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd yn gymesur, yn briodol ac yn gynhwysfawr.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C18 | A yw'r esboniad o 'dod yn ymwybodol gyntaf' yn y canllawiau yn ddigon clir i alluogi sefydliadau'r GIG i wybod pryd y mae'n rhaid i'r weithdrefn Gonestrwydd ddechrau? | 54 | 87.0% | 13.0% |
| C19 | Dan amgylchiadau lle na ellir rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth, neu lle nad yw'n fodlon i neb roi gwybod iddo, fod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno, a yw'r darpariaethau sy'n nodi pwy a all weithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth yn ddigon cynhwysfawr? | 52 | 92.3% | 7.7% |
| C20 | A yw'r darpariaethau yn Rheoliad 7(3) yn gymesur? Y rhain sy'n caniatáu i sefydliad y GIG wneud cofnod o achos pan na fydd yn ymgysylltu â defnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, naill ai oherwydd: (i) ei fod wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gysylltu â'r unigolyn ac wedi methu; neu (ii) bod y defnyddiwr gwasanaeth wedi penderfynu nad yw'n dymuno i neb gyfathrebu ynglŷn â'r Ddyletswydd? | 54 | 94.4% | 5.6% |
| C21 | A yw Rheoliadau 7(2) a 7(3) yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion Defnyddwyr Gwasanaethau neu bersonau sy'n gweithredu ar eu rhan a lefel y baich a roddir ar sefydliadau'r GIG? | 51 | 94.1% | 5.9% |
| C22 | Ydych chi'n cytuno bod rhoi gwybod 'yn uniongyrchol' yn ffordd briodol a chymesur o hysbysu defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd bod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno? | 54 | 92.6% | 7.4% |
| C23 | Ydych chi'n cytuno ei bod yn briodol ac yn gymesur bod gan sefydliad y GIG ddewis o ran pa ddull o roi gwybod 'yn uniongyrchol' sydd fwyaf priodol, gan ystyried y ffactorau uchod? | 56 | 85.7% | 14.3% |
| C24 | A yw'r canllawiau ar sut i wneud ymddiheuriad ystyrlon a nodir yn adran 7e ac Atodiad E y canllawiau, yn rhoi digon o wybodaeth a chyngor i sicrhau y caiff ymddiheuriad personol ac ystyrlon ei gyfleu? | 55 | 87.3% | 12.7% |
| C25 | Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi gwybod yn ysgrifenedig ar ôl rhoi gwybod 'yn uniongyrchol'? | 55 | 96.4% | 3.6% |
| C26 | Ydych chi'n cytuno bod y gofyniad ar sefydliadau'r GIG i gymryd pob cam rhesymol i anfon yr hysbysiad ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad yr hysbysiad llafar yn rhesymol ac yn gymesur? | 53 | 67.9% | 32.1% |

Graffigyn 2.1: Cwestiynau Pennod *2 (*Rhoi Gwybod, Cysylltu ac Ymddiheuriad), nifer yr ymatebwyr a dadansoddiad ydy/nac ydy.

Roedd canran uchel o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau a gynigir yn yr adran hon o'r ymgynghoriad yn glir, yn gymesur, ac yn briodol o ran y weithdrefn rhoi gwybod, cysylltu ac ymddiheuriad ar gyfer y Ddyletswydd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn croesawu'r adborth hwn sy'n atgyfnerthu'r dull a ddefnyddiwyd i ysgrifennu'r weithdrefn, a ddatblygwyd drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid a gwirio'i synnwyr gyda defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau eiriolaeth.

Cysylltu (Cwestiynau 18, 19, 20 a 21):

Nodwyd thema llywodraethu a goruchwylio yn rheolaidd yng nghwestiwn 18, a oedd yn hoelio sylw ar yr esboniad ynghylch pryd y gwnaethpwyd 'dod yn ymwybodol gyntaf'. Yn fwy penodol, awgrymodd ymatebwyr y gallai fod angen i'r amserlenni ar gyfer pryd y mae'n rhaid i weithdrefn y

Ddyletswydd ddechrau fod yn fwy pendant. Dywedodd yr ymatebwyr y gallai sefydliadau'r GIG gymryd y 30 diwrnod llawn a ganiateir ar gyfer rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth wrth 'ddod yn ymwybodol gyntaf', heb amserlenni pendant. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd nad oes uchafswm o ddiwrnodau ar gyfer y 'cyfnod myfyrio' a amlinellir yn y canllawiau. Is-thema arall a godwyd yng Nghwestiwn 18 oedd pwy fyddai'n gyfrifol am reoli'r Ddyletswydd o ran yr 'hysbysiad uniongyrchol'. Cyfeiriodd un ymatebwr at y canllawiau gan nodi 'rhaid i gorff y GIG enwebu person sydd â phrofiad, gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd' i gynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaeth drwy gydol y broses. Holodd a ddylai amlinellu y byddai'r person hwn yn uwch aelod o'r tîm clinigol, ond y gallai hefyd fod yn rheolwr profiadol.

Roedd ymatebwyr i Gwestiynau 20 a 21 (a ofynnodd am farn ar Reoliad 7(3) - sy'n caniatáu i gyrff y GIG gofnodi pan fyddant wedi ceisio cysylltu â defnyddiwr gwasanaeth yn aflwyddiannus) yn cytuno'n gryf bod y rheoliadau'n gymesur ac yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion y defnyddiwr gwasanaeth a'r baich ar sefydliadau'r GIG. Fodd bynnag, amlygodd llawer o ymatebwyr yr angen am fwy o eglurder ynghylch y term 'ymdrechion rhesymol' o ran sawl gwaith y dylai sefydliadau'r GIG geisio cysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran. Awgrymodd yr ymatebion y dylid meintioli'r term 'rhesymol' er cysondeb ar draws sefydliadau'r GIG.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cydnabod y pryder am gael eglurder pellach ynghylch y dyddiad cychwyn ac rydym wedi adolygu'r canllawiau i sicrhau eu bod yn dilyn y Ddeddf yn agos. Cyfarwyddir sefydliadau i ymgymryd â'r hysbysiad uniongyrchol cyn gynted ag y byddant wedi 'dod yn ymwybodol gyntaf' fod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i sbarduno. Fodd bynnag, dylid cydnabod y gallai hyn olygu, ar gyfer rhai defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, y bydd angen rhywfaint o drefnu er mwyn sicrhau dyddiad ac amser cyfarfod sy'n gyfleus i bawb, yn ogystal â sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael gwybod gan ddefnyddio'r dull sydd fwyaf addas iddo/iddi. Yn ogystal, mae hyfforddiant y GIG yn sôn yn benodol bod angen gwirio ffeithiau'r digwyddiad honedig yn fyr (gwna'n glir nad ymchwiliad yw hwn, ond gwirio dilysrwydd y ffeithiau a adroddwyd). Mae'r rhwyd ddiogelwch hon yn bwysig er mwyn osgoi peri trallod diangen i ddefnyddwyr gwasanaeth neu waethygu niwed neu anaf seicolegol.

Rydym wedi atgyfnerthu'r canllawiau a'r siartiau llif i egluro na ddylai sefydliadau'r GIG gymryd 30 diwrnod gwaith i ddarparu'r hysbysiad uniongyrchol. Bwriad y polisi yma yw rhoi rheswm ac esboniad dilys i ddefnyddwyr gwasanaeth os yw'r hysbysiad uniongyrchol yn cael ei wneud wedi 30 diwrnod gwaith.

O ran yr is-thema mewn ymateb i gwestiwn 18, mae'n bwysig bod sgiliau, gwybodaeth a dawn y sawl sy'n gwneud yr hysbysiad uniongyrchol yn cael eu hystyried yn ofalus. Mewn rhai sefydliadau, efallai mai uwch reolwr fydd hynny ond, mewn gofal sylfaenol neu mewn gwasanaethau a gomisiynir gan Fwrdd Iechyd, efallai nad yw hynny'n rhesymol nac yn gyraeddadwy ac efallai mai clinigwr fydd y sawl sy'n darparu'r hysbysiad uniongyrchol.

Rydym yn croesawu'r adborth cadarnhaol ein bod wedi llwyddo i daro'r cydbwysedd cywir rhwng baich a chymesuredd. Nid bwriad y canllawiau statudol yw rhagnodi sawl tro y byddai ceisio cysylltu â defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ystyried yn rhesymol. Mae llawer o sefyllfaoedd a fydd â ffactorau unigryw sy'n dylanwadu ar y penderfyniad hwn, megis difrifoldeb y niwed neu faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r defnyddiwr gwasanaeth. Serch hynny, rhaid i'r sefydliad allu cyfiawnhau ei fod wedi ystyried y ffactorau hyn wrth gyfrif am y gofyniad hwn a'r hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur.

Rhoi Gwybod (Cwestiynau 22, 23 a 25):

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
| --- | --- |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 42 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 14 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 11 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 7 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
| --- | --- |
| Cyfathrebu | 21 |
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 18 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 7 |
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 6 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 5 |
| Grwpiau Agored i Niwed | 4 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 4 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 2 |
| Diffiniad o Niwed (Goddrychedd) | 1 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 1 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 1 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 1 |

Graffigyn 2.2: Pennod 2 (Rhoi Gwybod) – themâu ac is-themâu a nodwyd ar gyfer cwestiynau 22, 23 a 25.

Roedd cwestiynau 22, 23 a 25 oll yn gwahodd safbwyntiau ymatebwyr ar y weithdrefn a'r canllawiau ynghylch yr hysbysiad 'uniongyrchol' ac, yn benodol, priodoldeb y dull hwn. Y brif thema a amlygwyd yn yr adran hon oedd parhau i ganolbwyntio ar y claf a'r is-themâu oedd cyfathrebu ac anghenion yr unigolyn i'w hystyried. Dywedodd yr ymatebwyr y bydd angen ystyried dulliau cyfathrebu priodol yn unigol a bydd angen iddynt ystyried ffactorau megis dewis iaith ac a yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn llythrennog yn ddigidol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid tynnu sylw defnyddwyr gwasanaeth at y cymorth sydd ar gael iddynt trwy gydol y broses hysbysu 'uniongyrchol'.

Amlygwyd hefyd y dylai'r cyfathrebu 'uniongyrchol' a'r hysbysiad ysgrifenedig dilynol fod yn bersonol, a chytunwyd y bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn rhoi eglurder a thryloywder i'r defnyddiwr gwasanaeth tra'n atgyfnerthu'r hyn sydd wedi'i gyfleu'n uniongyrchol.

Pwysleisiodd un elusen genedlaethol: "Mae'r dilyniant ysgrifenedig yn gwbl hanfodol i bobl hŷn a allai ddioddef mwy nag ychydig o niwed. Rydyn ni'n clywed dro ar ôl tro gan bobl hŷn nad ydyn nhw wedi gallu deall gwybodaeth yn llawn yn ystod cyfnodau anodd wrth ei chlywed am y tro cyntaf, ac felly mae dilyniant ysgrifenedig yn hanfodol" (Age Cymru, Cwestiwn 25).

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cytuno y bydd angen ystyried y dulliau cyfathrebu priodol yn unigol. Mae'n bwysig ystyried ffactorau fel dewis iaith ac a yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn llythrennog yn ddigidol neu a oes ganddo'r dechnoleg a allai alluogi'r hysbysiad uniongyrchol i gael ei gyflwyno dros y we.
Mae'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r hysbysiad uniongyrchol a chanllawiau'r hysbysiad ysgrifenedig wedi'u cryfhau ac maent yn disgrifio sut y dylid cyflawni hyn, a phwysigrwydd cyfathrebu personol a chyfathrebu sy'n canolbwyntio ar y claf, yn glir.

## Ymddiheuriad (Cwestiwn 24):

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Adnoddau a Hyfforddiant | 9 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 9 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 6 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 9 |
| Cyfathrebu | 5 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 4 |
| Terminoleg | 2 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 2 |
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 1 |

Graffigyn 2.3: Pennod 2 (Ymddiheuriad) – themâu ac is-themâu a nodwyd ar gyfer cwestiwn 24.

Gofynnodd cwestiwn 24 i ymatebwyr a oedd y canllawiau'n ddigonol i sicrhau ymddiheuriad personol ac ystyrlon. Er bod canran uchel o'r ymatebion yn cytuno bod y canllawiau'n ddigonol (87%), amlygodd ymatebwyr y byddai angen darparu hyfforddiant a chymorth ychwanegol i roi'r canllawiau ar waith. Amlygodd rhai ymatebwyr y byddai angen hyfforddiant ar staff ar ymdrin â sgyrsiau anodd a chyfathrebu effeithiol er mwyn osgoi achosi niwed neu drallod pellach. Amlygwyd hefyd y byddai angen i hyfforddiant a chanllawiau ystyried cyfleu materion sensitif ac, ymhellach, cyfleu'r materion hyn i bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Teimlai ymatebwyr hefyd y dylai deunyddiau hyfforddiant gynnwys enghreifftiau o ymddiheuriad effeithiol, gan y byddai hyn yn rhannu dysgu ac arfer da. Yn olaf, roedd rhai o'r farn y dylai'r canllawiau amlinellu'n glir nad yw ymddiheuriad yn gyfystyr â chyfaddef atebolrwydd cyfreithiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Eisoes, mae nifer o ganllawiau cyhoeddedig effeithiol ar gael ar gyflwyno ymddiheuriad effeithiol ac mae adolygiad o'r llenyddiaeth ategol yn dangos bod angen paratoi a hyfforddi gofalus. Rydym wedi ychwanegu rhagor o gyfeiriadau at adnoddau rhagorol ar wneud ymddiheuriad effeithiol ac wedi gwella'r canllawiau ar sut i gyflawni hyn yn llwyddiannus. Rydym hefyd wedi cynnwys y ffactorau allweddol i sicrhau bod ymddiheuriad yn ddiffuant yn fideo hyfforddi'r GIG.

## Hysbysiad Ysgrifenedig (Cwestiwn 26):

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Llywodraethu a Goruchwylio | 21 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 11 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 1 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 20 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 10 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 1 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 1 |
| Cyfathrebu | 1 |

Graffigyn 2.4: Pennod 2 (Hysbysiad Ysgrifenedig) – themâu ac is-themâu a nodwyd ar gyfer cwestiwn 26

Cwestiwn 26, a oedd yn canolbwyntio ar amseriad yr hysbysiad ysgrifenedig, a ysgogodd y gwahaniaeth mwyaf yn yr ymatebion yn yr adran hon. Roedd 32% o'r ymatebwyr yn anghytuno bod y 'gofyniad ar sefydliadau'r GIG i gymryd pob cam rhesymol i anfon yr hysbysiad ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad yr hysbysiad llafar' yn gymesur. Fel yr amlygwyd yn y graffigyn uchod, yr is-thema a nodwyd amlaf yn yr ymatebion oedd yr amserlenni a'r terfynau amser. Teimlai mwyafrif llethol yr ymatebwyr y byddai'r gofyniad dau ddiwrnod yn afrealistig ac yn anghyraeddadwy, ac awgrymwyd y dylid ymestyn yr amserlen hon i 5-7 diwrnod. Yn cydblethu'n dynn â hyn yr oedd pryderon a godwyd ynghylch pwysau amser, staffio ac adnoddau y byddai amserlen dau ddiwrnod yn eu rhoi ar dimau. Amlygwyd y byddai angen adnoddau ychwanegol er mwyn cadw'r amserlen hon ac amlygwyd y diffyg adnoddau i gyflawni hyn mewn gofal sylfaenol o gymharu â Byrddau Iechyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Croesawn yr adborth hwn, a godwyd ar wahân hefyd gan randdeiliaid allweddol y GIG. Rydym wedi ystyried yr ymatebion hyn ac wedi diwygio Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd a'r Canllawiau fel eu bod nawr yn adlewyrchu bod yn rhaid cyflwyno'r hysbysiad ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith i ddiwrnod yr hysbysiad uniongyrchol. Roeddem yn pryderu hefyd y byddai hyn yn achosi anghysondeb â rheoliadau Gweithio i Wella, sy'n datgan bod yn rhaid rhoi cydnabyddiaeth ysgrifenedig o bryder o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r hysbysiad ac, felly, rydym hefyd wedi newid rheoliadau Gweithio i Wella o 2 i 5 diwrnod gwaith.

## Hyfforddiant a Chymorth

Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn holi a oedd ymatebwyr o'r farn bod y gofynion hyfforddi a'r darpariaethau cymorth i staff yn gymesur; roedd hefyd yn rhoi'r cyfle i ymatebwyr amlinellu unrhyw hyfforddiant y byddai ei angen yn eu barn nhw ar staff y GIG i sicrhau bod y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C27 | A yw'r gofynion hyfforddi'n cynnwys yr holl staff y mae angen hyfforddiant arnyn nhw? | 51 | 88.2% | 11.8% |
| C28 | Yn eich barn chi, pa fath o hyfforddiant y byddai angen i staff y GIG ei gael yn ychwanegol at hyfforddiant presennol y GIG er mwyn i'r Ddyletswydd Gonestrwydd fod yn llwyddiannus? Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach. | 51 | | |
| C29 | A yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chymorth i staff yn gymesur? | 53 | 86.8% | 13.2% |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Adnoddau a Hyfforddiant | 64 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 4 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 4 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 26 |
| Cyfathrebu | 12 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 8 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 5 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 5 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 4 |
| Grwpiau Agored i Niwed | 3 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 3 |
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 3 |
| Dyletswydd Broffesiynol a Statudol | 1 |
| Terminoleg | 1 |
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 1 |

Graffigyn 2.5: Cwestiynau Pennod 2 (Hyfforddiant a Chymorth), nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydyn/nac ydynt – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno bod y gofynion hyfforddi a'r darpariaethau cymorth a amlinellwyd yn briodol ac yn gymesur. Roedd prif thema ac is-thema'r adran hon yn canolbwyntio ar amser, adnoddau a'r hyfforddiant a'r cymorth yr oedd eu hangen i weithredu'r ddyletswydd.

Darpariaethau Hyfforddiant (Cwestiynau 27 a 28):

Yng Nghwestiwn 27, amlygodd ymatebwyr y gallai fod angen ymestyn yr hyfforddiant i grŵp ehangach o aelodau staff i gynnwys staff gweinyddol a chymorth anghlinigol. Teimlwyd bod angen hyn i sicrhau ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a hefyd oherwydd y gallai aelodau staff yn y meysydd hyn ymwneud â digwyddiadau sy'n sbarduno'r Ddyletswydd.

Gofynnodd cwestiwn 28 i'r ymatebwyr pa hyfforddiant y byddai ei angen yn eu barn nhw, yn ychwanegol at hyfforddiant presennol y GIG, er mwyn i'r Ddyletswydd Gonestrwydd fod yn llwyddiannus. Yr is-thema fwyaf cyffredin oedd cyfathrebu; amlygodd ymatebwyr y byddai angen hyfforddiant ar staff ar feysydd fel ymddiheuro'n ystyrlon, gwrando cefnogol a gweithredol, ac ymdrin â sefyllfaoedd anodd sy'n gwrthdaro, ymhlith eraill. Amlygodd ymatebwyr ei bod hi'n allweddol i staff feddu ar y sgiliau i ymgysylltu a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth yn sensitif ac yn bersonol. Awgrym arall oedd i staff gael eu hyfforddi ar gategoreiddio niwed, fel y gellir penderfynu'n gywir arno i gynorthwyo proses y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Hefyd, teimlai'r ymatebwyr y dylid cynnig hyfforddiant mewn amryw ffordd i gefnogi arddulliau dysgu unigolion a'u rolau. Awgrymwyd dysgu wyneb yn wyneb, sesiynau ar-lein/rhithwir, fideos hyfforddi, a dysgu seiliedig ar senarios. Yn ogystal, roedd rhai cyfranogwyr o'r farn y dylid cael lefel o hyfforddiant gorfodol, gyda hyfforddiant pwrpasol ar gyfer rolau penodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cytuno â'r adborth a ddarparwyd, sef y gallai fod angen ymestyn yr hyfforddiant i gynulleidfa ehangach o staff clinigol ac anghlinigol er mwyn cyrraedd y gyfran gywir o staff y GIG. Derbynnir efallai y bydd angen gwneud hyn ar ffurf hyfforddiant ychwanegol, fodd bynnag dylid cydnabod y bydd llawer o weithwyr proffesiynol eisoes wedi ymgymryd â hyfforddiant gonestrwydd penodol a hyfforddiant cyfathrebu uwch, y bydd hyn yn adeiladu arno. Gyda hynny mewn golwg, cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol newydd i adlewyrchu'r niferoedd cynyddol o staff ychwanegol i'w hyfforddi.

Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gael bellach i holl staff y GIG ac mae'r hyfforddiant uwch hefyd wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio gan grŵp ehangach o staff. Cyfrifoldeb sefydliadau'r GIG o hyd yw datblygu dadansoddiad o anghenion hyfforddi sefydliadol i sicrhau bod y staff cywir yn ymwybodol ac wedi'u hyfforddi.

Darpariaethau Cymorth (Cwestiwn 29):

Mewn ymateb i Gwestiwn 29, amlygodd y cyfranogwyr bwysigrwydd cymorth i aelodau staff, fel y dywedodd un ymatebwr; 'bydd digwyddiad sy'n arwain at sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn drawmatig i'r aelod staff yn ogystal â'r defnyddiwr gwasanaeth'. Teimlai ymatebwr arall fod cyfle 'i amlygu pa mor bwysig yw hi bod staff yn lleisio pryderon os teimlant nad ydynt yn cael eu cefnogi, [neu teimlant] eu bod yn cael eu hannog i beidio â rhoi gwybod am ganlyniad niweidiol hysbysadwy, neu eu hatal rhag gwneud'. Awgrymodd yr ymatebydd y gallai'r canllawiau gyfeirio at gymorth ac arweiniad perthnasol i weithwyr proffesiynol ynghylch codi pryderon.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig byd-eang wedi dangos nid yn unig sut mae cymorth a lles i staff yn hanfodol i weithlu cynaliadwy ond hefyd o ran creu diwylliant o ddiogelwch lle mae staff yn teimlo eu bod yn gallu siarad am ddiogelwch a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Rydym yn cytuno nad oedd y ddogfen ymgynghori wedi mynd i'r afael â hyn yn ddigonol. Mae adran ar gymorth i staff erbyn hyn ac mae Atodiad D1 nid yn unig yn mynd i'r afael â hyn ar gyfer aelod staff a allai fod wedi ymwneud â digwyddiad, ond mae hefyd yn amlinellu'r cymorth i'r rhai sy'n ymgymryd â hysbysiad neu weithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd.

## Llywodraethu a Goruchwylio

Gofynnodd yr adran hon o'r ymgynghoriad i ymatebwyr a fyddai Rheoliadau 10 ac 11 yn cynorthwyo sefydliadau'r GIG â sefydlu strwythurau llywodraethu effeithiol ac a oeddent yn darparu'r lefel briodol o arweinyddiaeth i gyflawni'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C30 | A yw Rheoliadau 10 ac 11 yn helpu sefydliadau'r GIG i sefydlu strwythur llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd? | 53 | 96.2% | 3.8% |
| C31 | A yw'r rheoliadau'n cynorthwyo sefydliad i roi'r lefel briodol o arweinyddiaeth er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd? | 54 | 90.7% | 9.3% |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Adnoddau a Hyfforddiant | 6 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 6 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 1 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 6 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 3 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 3 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 1 |

Graffigyn 2.6: Cwestiynau Pennod 2 (Llywodraethu a Goruchwylio), nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydyn/nac ydyn – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Roedd cytundeb ysgubol y bydd Rheoliadau 10 ac 11 yn cynorthwyo sefydliadau'r GIG â sefydlu strwythurau llywodraethu effeithiol ac yn darparu'r arweinyddiaeth briodol er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Dim ond nifer fach o ymatebwyr a anghytunodd â'r naill gwestiwn neu'r llall a ofynnwyd yn yr adran hon. Fodd bynnag, amlygodd rhai sylwadau y bydd angen i hyfforddiant ac adnoddau digonol fod ar waith i gyflawni'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Teimlai eraill y gallai fod angen mwy o eglurder ynghylch lefel yr aelod staff a fydd yn rheoli'r broses, ac awgrymodd eraill y dylai'r canllawiau, 'fod yn glir, os nad yw'r swyddog cyfrifol yn glinigwr perthnasol, y bydd ef/hi/nhw yn sicrhau bod cyfraniad clinigol priodol at y weithdrefn gonestrwydd'.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Rydym yn cydnabod bod yr adborth yn nodi y bydd y rheoliadau yn cynorthwyo sefydliadau â sefydlu strwythurau llywodraethu ac arweinyddiaeth. Mae hyfforddi aelodau bwrdd yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae holl fyrddau'r GIG eisoes wedi cael hyfforddiant penodol o ran y Ddyletswydd Gonestrwydd. Teimlir bod y canllawiau a'r rheoliadau yn glir iawn ynghylch lefel y staff a fydd yn arwain y broses hon. Ar hyn o bryd, ni chefnogir lefel y manylder a awgrymwyd o ran pennu sut y mae swyddog cyfrifol yn ymgymryd â'r Ddyletswydd hon gan fod y Ddyletswydd hon yn berthnasol ar draws tirwedd ehangach a chymhleth, a rhaid i gyrff y GIG fod â'r gallu i drefnu sut y maent yn cyflawni'r Ddyletswydd hon yn lleol i adlewyrchu eu poblogaeth leol a'u sefydliad.

## 5.3 Pennod 3: Mân Ddiwygiadau i'r Rheoliadau Gweithio i Wella; a
## 5.4 Pennod 4: Diwygiadau a Diweddariadau i'r Canllawiau Gweithio i Wella

### Gweithio i Wella

Roedd y penodau hyn o'r ymgynghoriad yn gwahodd barn cyfranogwyr ar y berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd a Gweithio i Wella, a'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Gweithio i Wella.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C32 | Ydych chi'n cytuno y dylai'r terfynau amser o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella, pan gaiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno, ddechrau o'r dyddiad y rhoddir gwybod ar lafar yn hytrach na'r dyddiad y byddai Sefydliad y GIG wedi cael gwybod am y digwyddiad? | 50 | 90.0% | 10.0% |
| C33 | Ydych chi'n credu y bydd newid rheolau 'Gweithio i Wella' fel hyn yn achosi problemau? Er enghraifft, ydych chi'n credu y byddai'n well peidio â dweud wrth yr unigolyn beth sydd wedi digwydd os mai hynny sydd er ei fudd pennaf? Mae siart llif ar gael yn Atodiad F1. | 50 | 54.0% | 46.0% |
| C34 | A yw'r cysylltiad rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r broses Gweithio i Wella yn glir yn y canllawiau ac yn Atodiad F1? | 53 | 90.6% | 9.4% |
| C35 | A yw'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau Gweithio i Wella mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Rheoliadau Diwygio Gweithio i Wella yn glir? | 49 | 100.0% | 0.0% |
| C36 | Ydych chi'n credu bod y newidiadau a wneir i'r canllawiau Gweithio i Wella yn ddigon i egluro sut mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn rhyngweithio â'r gweithdrefnau Gweithio i Wella? | 49 | 87.8% | 12.2% |

Graffigyn 3/4.1: Cwestiynau Penodau 3 a 4, nifer yr ymatebion a dadansoddiad ydw/nac ydw.

Heblaw am Gwestiwn 33, roedd consensws yn yr adrannau hyn bod y newidiadau i'r canllawiau Gweithio i Wella yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn glir.

Cwestiwn 33:

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 31 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 3 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 3 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 1 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 21 |
| Cyfathrebu | 5 |
| Dyletswydd Broffesiynol a Statudol | 2 |
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 2 |
| Grwpiau Agored i Niwed | 1 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 1 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 1 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 1 |

Graffigyn 3/4.2: Penodau 3 a 4 – themâu ac is-themâu a nodwyd ar gyfer cwestiwn 33.

Roedd Cwestiwn 33 yn pwysleisio cyferbyniad clir o ran barn, gyda 54% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai newid y rheolau Gweithio i Wella i'r isod, yn achosi problemau:

*'Rhaid dweud wrth yr unigolyn os aeth rhywbeth o'i le gyda'i ofal, yn unol â'r amcan sy'n sail i'r Ddyletswydd Gonestrwydd. [Ond], nid oes angen i'r unigolyn fod yn rhan o'r broses na'r ymchwiliad, os mai dyna sydd orau iddo'*

Er bod safbwyntiau gwrthgyferbyniol ar gyfer y cwestiwn hwn, mae thema parhau i ganolbwyntio ar y claf ac is-thema anghenion yr unigolyn i'w hystyried yn codi ar ddwy ochr y ddadl. I ymatebwyr a atebodd 'nac ydw', ni fydd newid y rheolau yn achosi problemau. Teimlwyd bod gan oedolion â galluedd yr hawl i wybod pan fydd pethau wedi mynd o'i le, ac nid lle'r Cyrff Iechyd yw penderfynu pryd mae peidio â gwybod er lles pennaf defnyddwyr gwasanaethau. Hefyd, amlygodd ymatebwyr os nad oedd gan ddefnyddiwr gwasanaeth y galluedd i ddeall beth sydd wedi digwydd, y dylid hysbysu person priodol sy'n gweithredu ar ei ran a'i gynnwys mewn penderfyniadau pellach.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd pe na bai rheolau Gweithio i Wella yn cael eu newid a phe nad oedd hi'n bosibl datgelu digwyddiadau, y byddai hyn yn achosi gwrthdaro rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol a statudol.

Dywedodd ymatebwyr ar ddwy ochr y ddadl eu bod yn teimlo bod agwedd agored a thryloyw yn bwysig. Fodd bynnag, pwysleisiodd y rhai a oedd o'r farn y gallai newid y rheolau achosi problemau, y bydd adegau eithriadol pan fyddai peidio â rhoi gwybod am ddigwyddiad er lles pennaf defnyddwyr gwasanaeth. Roedd enghreifftiau o'r achlysuron hyn a ddarparwyd gan ymatebwyr yn cynnwys: lle bydd yn achosi gormod o ofid ac na fydd yn newid y canlyniad, lle gallai achosi i'r defnyddiwr gwasanaeth golli hyder yn ei driniaeth neu ei ddarparwr, neu lle byddai'n cael effaith andwyol ar iechyd meddwl a lles y defnyddiwr gwasanaeth. O dan yr amgylchiadau hyn, awgrymwyd y dylid ymgorffori lefel o hyblygrwydd yn y canllawiau, a bydd angen cofnodi'r rhesymeg wrth wraidd y penderfyniad yn glir. Dywedodd un ymatebwr 'na fyddent am ddeddfwriaeth sy'n gorfodi pobl i gael gwybod am ddigwyddiadau pan fyddai hynny mewn gwirionedd yn gwneud mwy o ddrwg nag o les iddynt'.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Derbynnir mai cymysg fu'r adborth i gwestiwn 33 a bod y ddau grŵp o ymatebion wedi amlygu canlyniadau arwyddocaol anfwriadol i'r diwygiadau yr ymgynghorwyd arnynt. Ar ôl gwerthuso gofalus iawn, penderfynwyd sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth bob amser yn cael gwybod am y pryder a godwyd. Fodd bynnag, nid yw'n orfodol cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran mewn ymchwiliad lle yr ystyrir, neu lle mae'r defnyddiwr gwasanaeth wedi nodi, nad yw hynny er ei les pennaf. Fe wnaethom ymgynghori ar y rheoliadau gonestrwydd i gynnwys y cafeat ar ddatgelu lle byddai datgeliad o'r fath yn peryglu ymchwiliad troseddol neu ymchwiliad diogelu. Felly, rydym wedi cadw'r cafeat hwnnw.

Cwestiynau 32, 34, 35 a 36:

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C32 | Ydych chi'n cytuno y dylai'r terfynau amser o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella, pan gaiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno, ddechrau o'r dyddiad y rhoddir gwybod ar lafar yn hytrach na'r dyddiad y byddai Sefydliad y GIG wedi cael gwybod am y digwyddiad? | 50 | 90.0% | 10.0% |
| C34 | A yw'r cysylltiad rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r broses Gweithio i Wella yn glir yn y canllawiau ac yn Atodiad F1? | 53 | 90.6% | 9.4% |
| C35 | A yw'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau Gweithio i Wella mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Rheoliadau Diwygio Gweithio i Wella yn glir? | 49 | 100.0% | 0.0% |
| C36 | Ydych chi'n credu bod y newidiadau a wneir i'r canllawiau Gweithio i Wella yn ddigon i egluro sut mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn rhyngweithio â'r gweithdrefnau Gweithio i Wella? | 49 | 87.8% | 12.2% |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Llywodraethu a Goruchwylio | 10 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 9 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 3 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 1 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 5 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 5 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 4 |
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 3 |
| Terminoleg | 2 |
| Arall | 2 |
| Grwpiau Agored i Niwed | 1 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 1 |

Graffigyn 3/4.3: Penodau 3 a 4, themâu ac is-themâu a nodwyd ar gyfer cwestiynau 32, 34, 35 a 36.

Dim ond 5 o ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r datganiad a amlinellwyd yng Nghwestiwn 32, ac roedd yr is-thema gyffredin yn ymwneud ag amserlenni a therfynau amser. Teimlai'r ymatebwyr y dylai llinellau amser Gweithio i Wella a'r Ddyletswydd Gonestrwydd gyd-fynd er mwyn osgoi unrhyw oedi a sicrhau hysbysiad amserol i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Ni chododd 3 chwestiwn olaf yr adran hon gymaint o amrywiaeth yn yr ymatebion. Teimlai'r mwyafrif helaeth fod y newidiadau i'r canllawiau Gweithio i Wella a'r cysylltiadau i ganllawiau'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn glir ac yn ddigonol. Gofynnodd rhai cyfranogwyr am fwy o fanylion yn y siart llif yn Atodiad F1 i gyflwyno'r cysylltiad rhwng prosesau Gweithio i Wella a'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Cydnabyddir bod angen mwy o eglurder ar y rhyngweithio rhwng y ddyletswydd gonestrwydd a phroses Gweithio i Wella i sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael hysbysiad amserol. Cynhaliwyd adolygiad pellach a datblygodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol y bwriad polisi i gysoni'r ddyletswydd gonestrwydd a'r broses Gweithio i Wella mor agos â phosibl. Gyda hynny mewn golwg, dilëwyd y diwygiadau i Gweithio i Wella a amlinellwyd yn y cwestiynau hyn ac, yn hytrach, mae'r amserlen yn dechrau o'r diwrnod y cafodd y sefydliad wybod am y pryder. Mewn sefyllfa dyletswydd gonestrwydd, ystyrir mai dyma pan fydd y sefydliad yn "dod yn ymwybodol gyntaf" fod y ddyletswydd wedi'i sbarduno.
Mae atodiad sydd wedi'i ailwampio'n llwyr bellach yn dangos llwybr Gweithio i Wella a llwybr y Ddyletswydd Gonestrwydd, a sut mae'r rhain yn cydberthyn ac yn llifo â'i gilydd. Rydym yn ddiolchgar iawn am yr adborth hwn.

## 5.5 Pennod 5: Asesiadau Effaith Integredig

### Asesiadau Effaith Integredig (Nodweddion Gwarchodedig)

Gofynnodd y bennod hon o’r ymgynghoriad i gyfranogwyr am eu barn ar sut y gallai’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y’u diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C37 | Beth yw eich barn chi ar y ffordd y gallai’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio ar y canlynol? pobl â nodweddion gwarchodedig fel y’u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 201014; gwahaniaethau o ran iechyd; ar grwpiau agored i niwed yn ein cymdeithas. Rhowch eich sylwadau. | 45 | | |

| Thema | Sawl tro y’i nodwyd |
|---|---|
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 16 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 9 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 9 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 1 |

| Is-thema | Sawl tro y’i nodwyd |
|---|---|
| Grwpiau Agored i Niwed | 9 |
| Cyfathrebu | 9 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i’w Gweithredu | 8 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 6 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 1 |
| Angen mynd i’r afael â’r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 1 |
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 1 |

Graffigyn 5.1: Cwestiwn Pennod 5 (Asesiadau Effaith Integredig (Nodweddion Gwarchodedig)), nifer yr ymatebion – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai gweithredu’r Ddyletswydd Gonestrwydd gael effaith gadarnhaol ar degwch a rhoi’r cyfle i ddarparwyr gofal iechyd ddysgu a gwella. Fodd bynnag, amlinellodd nifer o ymatebwyr y byddai angen ystyried y cymorth ychwanegol a gynigir ac a ddarperir i’r rhai â nodweddion gwarchodedig fel y’u diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Amlinellodd y cyfranogwyr y gallai fod angen i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y grŵp hwn gael at gymorth ychwanegol drwy gydol proses y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Amlinellir y datganiad hwn gan un cynrychiolydd Bwrdd Iechyd yn y datganiad a ganlyn: “Ar gyfer rhai grwpiau nodweddion gwarchodedig, rhaid ystyried sut mae’r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei chyflawni’n benodol er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gefnogi ac, os oes angen, bod ei eiriolwyr [yn] bresennol, yn ogystal gall hyn olygu bod angen gwahanol fformatau neu fathau o gyfathrebu wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn” (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwestiwn 37).

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ethos canolog allweddol y ddyletswydd gonestrwydd yw bod defnyddwyr gwasanaeth a’u teuluoedd neu gynrychiolwyr yn cael eu trin yn agored, yn onest ac yn dryloyw. Mae’n hollbwysig osgoi sefyllfaoedd blaenorol yn y GIG lle y mae pryderon cleifion neu staff yn cael eu hanwybyddu a’u cuddio, ac mae hyn yn arbennig o bwysig i’r rhai sy’n agored i niwed neu’n cael eu hystyried yn grŵp lleiafrifol. Mae'r angen am eiriolaeth gref lle mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gefnogi i fod yn ganolog i'r broses hon yn egwyddor ganolog i’r dull yr ydym yn ei roi ar waith ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae’r adborth yn amlygu’n glir bryderon sylweddol ynghylch yr angen am y cymorth cywir a mynediad at y cymorth hwnnw, a hebddynt efallai na fyddwn yn gwireddu ein nodau, sef diwylliant agored a gonest. Eto, rydym wedi gwella'r arweiniad ar gymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y canllawiau a'r atodiadau.

Pwysleisiwyd y bydd angen i'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir fod yn hyblyg ac wedi'u teilwra fel eu bod yn briodol i'r unigolyn, gan sicrhau ei fod yn deall yr effaith y bydd sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ei chael arno a'r cymorth y gall ei gael. Teimlwyd y dylid cynnig unrhyw gyfathrebu yn iaith gyntaf y defnyddiwr gwasanaeth, gyda rhai ymatebwyr yn amlygu y bydd angen ystyried a hwyluso Deddf Iaith Arwyddion Prydain (BSL) 2022. At hynny, nododd ymatebwyr y dylid gweithredu ar unrhyw addasiadau y gellir eu gwneud i ddarparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Fel yr amlygwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 33, dywedodd nifer o ymatebwyr unwaith eto y bydd angen i'r cynnig eiriolaeth a chymorth fod yn glir i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, ac mae'n bosibl iawn y bydd angen darpariaethau ychwanegol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn croesawu'r thema fynych hon ac yn cytuno y bydd adeiladu ar yr hyfforddiant presennol a ddarperir a chynnwys hyn yn y canllawiau a'r hyfforddiant ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd yn anelu at alluogi staff i ystyried sut y byddant yn diwallu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth.

Thema arall a gododd yn yr adran hon oedd adnoddau a hyfforddiant, ac amlygodd ymatebwyr y bydd angen hyfforddiant, adnoddau a chymorth ychwanegol ar gyfer staff er mwyn i'r darpariaethau a amlinellwyd gael eu gweithredu. Fel yr amlygwyd mewn ymatebion i Gwestiynau 27 a 28, dywedodd ymatebwyr y bydd angen hyfforddiant ar gyfathrebu ar aelodau staff. Gan adeiladu ar hyn, bydd angen iddynt 'ddeall effaith y Ddyletswydd Gonestrwydd, yn ymwneud ag unigolion â nodweddion gwarchodedig, [y rhai â] gwahaniaethau iechyd ac a nodir mai nhw yw'r mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas' i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth sydd â nodwedd warchodedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd angen i hyfforddiant adlewyrchu'r ystyriaethau hyn, ond yn y canllawiau rydym wedi ymdrechu i fynegi'r angen bod hyn yn ystyriaeth weithredol ac yn gynnig rhagweithiol yn enwedig o ran cyfathrebu ac eiriolaeth, ac rydym wedi cyfeirio at Llais (Corff Llais y Dinesydd), sy'n gorff newydd a fydd yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd o ran gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; dylai'r corff hwn fod yn weithredol o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Gwnaed rhai awgrymiadau gan ymatebwyr a allai gefnogi hyfforddiant a gwelliant yn sgil gweithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn gysylltiedig â'r rhai â nodweddion gwarchodedig. Rhai enghreifftiau oedd:

i. Coladu 'senarios posibl ar gyfer effaith y Ddyletswydd Gonestrwydd, gan ystyried yr ystod o nodweddion gwarchodedig unigol'
ii. Coladu 'astudiaethau achos yn sgil gweithredu'r rheoliadau, [a] cynnwys amgyffrediad pobl o'r grwpiau hyn o ryngweithiadau sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd, gyda'r bwriad o wella profiad pob parti'
iii. Llunio panel cleifion yn ymwneud yn benodol â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Mae pob un o'r tri awgrym uchod yn cefnogi'r datganiad a ddarparwyd gan un ymatebwr, sef y bydd angen monitro effaith y Ddyletswydd Gonestrwydd ar y rheini â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn barhaus i sicrhau ei bod yn gadarnhaol ac yn ysgogi dysgu a gwelliant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**:
Rydym yn ddiolchgar am yr awgrymiadau hyn, sydd wedi'u cynnwys yn y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud ar systemau ansawdd a diogelwch ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu rhaglen werthuso gadarn ynghylch cyflwyno ac effaith barhaus y Ddyletswydd Gonestrwydd gan grŵp arbenigwyr allanol. Byddwn yn sicrhau bod hyn, a phwyntiau adborth eraill yr ymgynghoriad, yn cael eu rhannu gyda nhw i helpu llywio'u gwaith.

## Asesiadau Effaith Integredig (yr iaith Gymraeg)

Gofynnodd y bennod hon o'r ymgynghoriad i gyfranogwyr am eu barn ar sut y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac a fyddai'n gadarnhaol neu'n negyddol.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C38 | Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er enghraifft, beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? Rhowch eich sylwadau. | 44 | | |
| C39 | Eglurwch hefyd sut y credwch y gallai'r polisi Dyletswydd Gonestrwydd arfaethedig gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? Rhowch eich sylwadau. | 45 | | |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 23 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 21 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 3 |
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 1 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Cyfathrebu | 23 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 16 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 4 |
| Amserlenni a Therfynau Amser/Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd | 3 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 1 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 1 |

Graffigyn 5.2: Cwestiynau Pennod 5 (Asesiadau Effaith Integredig (yr iaith Gymraeg)), nifer yr ymatebion – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Roedd y ddwy thema a gododd yn rheolaidd yn y bennod hon yn gysylltiedig â'i gilydd ac amlygodd ymatebwyr y byddai darparu gohebiaeth Gymraeg yn dibynnu ar fynediad at adnoddau. Roedd sylwadau llawer o gyfranogwyr yn adlewyrchu sylwadau Cwestiwn 37 gan nodi y byddai angen darpariaethau ychwanegol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael yr holl ohebiaeth a chyfathrebu yn eu dewis iaith. Teimlwyd y byddai'r cynnig gwasanaethau dwyieithog yn angenrheidiol i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i ddeall yr effaith y byddai'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ei chael arnynt. Pwysleisiodd un cyfranogwr y dylid gwreiddio syniad y 'Cynnig Rhagweithiol' yn y Ddyletswydd i gynyddu'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Amlygodd llawer o gyfranogwyr y byddai angen ystyriaethau ymarferol er mwyn gweithredu'r uchod yn llwyddiannus, megis sicrhau bod gan wasanaethau cyfieithu adnoddau digonol, a bod hyfforddiant ar waith. Awgrymodd un ymatebwr, os nad oedd staff Cymraeg eu hiaith ar gael wrth roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth i ddechrau, yna rhaid i'r hysbysiad dilynol fod yn ddwyieithog er mwyn sicrhau eglurhad i'r defnyddiwr gwasanaeth. Ystyriaeth ymarferol arall a amlygwyd oedd amserlenni a therfynau amser. Awgrymwyd y gallai fod angen ymestyn y rhain pan fo angen gwasanaethau cyfieithu, ond amlygodd eraill y gallai hyn gael effaith negyddol ac oedi cyn rhoi gwybod i'r defnyddwyr gwasanaeth a'r cyswllt.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cydnabod mai sefydliadau proffesiynol, Colegau Brenhinol a sefydliadau'r GIG oedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn. O'r herwydd, rydym wedi trafod yr angen i fod yn ymwybodol o duedd yn y themâu a'r ymatebion a ddadansoddwyd. Felly, rydym yn ymwybodol bod yn rhaid i'r Gymraeg fod yn gynnig gweithredol ac er y gall fod anawsterau logistaidd, rhaid i bob sefydliad roi systemau digonol ar waith i sicrhau y cyfathrebir â defnyddwyr gwasanaeth yn y modd mwyaf priodol i'r defnyddiwr gwasanaeth ac nid ar gyfer y sefydliad. Nid yw'n dderbyniol disgrifio'r angen am gyfieithu llythyr neu gyfathrebu yn Gymraeg fel sail resymegol resymol dros oedi cyn hysbysu. Mewn llawer o achosion, gall defnyddwyr gwasanaeth fod dan anfantais os nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, a chaiff eu dealltwriaeth ei hymestyn yn sylweddol pan fydd y cyfathrebu yn Gymraeg. Dylai anghenion y defnyddwyr gwasanaeth fod yn ganolog bob amser i'r ffordd yr ydym yn rheoli sefyllfaoedd lle mae niwed wedi digwydd i ddefnyddiwr gwasanaeth wrth ddarparu gofal iechyd.

## 5.6 Sylwadau Ychwanegol

Roedd adran olaf yr ymgynghoriad yn gofyn i gyfranogwyr amlygu unrhyw faterion ychwanegol ac adborth nad aethpwyd i'r afael â nhw yn ystod yr ymgynghoriad, yn eu barn nhw.

| | Cwestiwn | Nifer yr Ymatebion | % Ydyn | % Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| C40 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi. Rhowch eich sylwadau. | 52 | | |

| Thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | 17 |
| Llywodraethu a Goruchwylio | 13 |
| Adnoddau a Hyfforddiant | 10 |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | 9 |

| Is-thema | Sawl tro y'i nodwyd |
|---|---|
| Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | 12 |
| Diffiniad o Niwed (Goddrychedd) | 5 |
| Cyfyngiadau Amser/Staffio | 5 |
| Cyfathrebu | 5 |
| Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | 3 |
| Terminoleg | 3 |
| Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | 3 |
| Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | 3 |
| Arall | 3 |
| Dyletswydd Broffesiynol a Statudol | 2 |
| Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | 2 |
| Grwpiau Agored i Niwed | 1 |
| Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | 1 |
| Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | 1 |

Graffigyn 6.1: Sylwadau ychwanegol, nifer yr ymatebion – themâu ac is-themâu a nodwyd.

Cododd amrywiaeth o themâu ac is-themâu ym mhennod olaf yr ymgynghoriad. Amlygwyd ac aethpwyd i'r afael â rhai awgrymiadau a materion a godwyd yn y bennod hon yn flaenorol yn yr adroddiad cryno, megis: y diffiniad o niwed, amser ac adnoddau staff, a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth ymhlith eraill.

Fodd bynnag, roedd y brif is-thema a gododd yn ymwneud â’r berthynas â pholisïau/gweithdrefnau/darparwyr gwasanaeth eraill a phwysleisiodd y cyfranogwyr rai meysydd lle gallai fod angen rhagor o wybodaeth neu ystyriaethau, megis:

i. Bwriedir gwneud newidiadau mawr i gontractau o fewn gofal sylfaenol ym mis Ebrill 2023, ac roedd rhai ymatebwyr o’r farn y bydd angen ystyried ymhellach y llwyth gwaith ychwanegol o’r newidiadau hynny a chyflwyno’r Ddyletswydd Gonestrwydd. Teimlai ymatebydd arall y dylai cyflwyno’r Ddyletswydd ar gyfer darparwyr annibynnol gyd-fynd, fel bod pob darparwr yn gweithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar yr un pryd.

ii. Teimlai un ymatebwr fod y canllawiau wedi'u hanelu'n bennaf at sefydliadau'r GIG a bod angen iddynt ystyried darparwyr annibynnol ymhellach.

iii. Ar hyn o bryd gall y broses Gweithio i Wella gael ei gohirio pan fydd atgyfeiriad Diogelu Oedolion yn cael ei gyflwyno hefyd yn gysylltiedig â phryder. Mae hyn oherwydd gofynion statudol [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014] (DGCLl) i ymholiadau/camau gweithredu Diogelu gael eu cynnal yn amserol. Mae'n dilyn felly y gallai fod angen atgyfeirio rhai digwyddiadau a fyddai'n arwain at Ddyletswydd Gonestrwydd at Ddiogelu hefyd. Teimlir y bydd angen rhywfaint o arweiniad ar sut i reoli hyn.

iv. Gan adeiladu ar y pwynt blaenorol, amlygodd ymatebwr y gallai fod angen i glinigwyr ddechrau sgyrsiau gyda chlaf cyn i’r Ddyletswydd Gonestrwydd gael ei sbarduno. Mae’n bosibl y byddai polisïau eraill yn disgwyl iddynt wneud hyn a gall fod angen canllawiau ychwanegol ar sut i ymdrin â’r sgyrsiau hynny ac a fyddai’r Ddyletswydd yn cael ei sbarduno

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn croesawu’r sylwadau a’r adborth hyn ac yn cytuno bod y berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd a pholisïau a gweithdrefnau eraill a darparwyr gwasanaeth yn bwysig iawn. Er y cydnabyddir bod yr oedi wrth gyflwyno dyletswydd darparwyr gofal iechyd annibynnol yn anffodus, y bwriad absoliwt yw sicrhau ei bod yn cael ei datblygu mor agos â phosibl at ddyletswydd gonestrwydd y GIG i gryfhau'r ddwy drwy wneud hynny. Mae’n bwysig cydnabod bod gofal y GIG sy’n cael ei ddarparu gan ddarparwr annibynnol yn ddarostyngedig o hyd i Ddyletswydd Gonestrwydd y GIG o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Er ein bod yn cydnabod y lefel sylweddol o newid sy’n digwydd ar hyn o bryd, nid ydym o’r farn mai gohirio cyflwyno’r ddyletswydd gonestrwydd yw’r peth priodol i’w wneud ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth na’r GIG.

Hoffem achub ar y cyfle i bwysleisio nad yw hyn yn newydd. Rydym wedi bod yn ymgymryd ag egwyddorion Bod yn Agored y broses Gweithio i Wella ac mae’r Ddyletswydd Gonestrwydd yn adeiladu ymhellach ar hyn a’r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol sydd eisoes ar waith.

Fel y dywedwyd yn flaenorol, y broses yw mai hysbysiad y Ddyletswydd Gonestrwydd a allai gael ei ohirio oherwydd prosesau diogelu neu ymchwilio troseddol, ond mae hynny’n benderfyniad a wneir ar sail sefyllfa unigol ac nid yw’n ddull awtomatig.

bryd hynny.

# 6 Casgliad/Y Camau Nesaf

Er mai dim ond 130 o ymatebion a ddaeth i law, cydnabyddir bod ansawdd yr ymatebion a'r manylder yn rhywfaint o'r adborth wedi golygu ei bod hi’n bosibl gwneud dadansoddiad thematig clir. Er y

nodwyd maint llai y sampl, mae'n arwyddocaol o hyd o ran cyfwng hyder o 95% a chyfradd gwallau o 9%. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yr ymatebion gan gyrff y GIG, sefydliadau proffesiynol a'r sector annibynnol yn bennaf, gyda dim ond nifer fach gan ddinasyddion/defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r canllawiau statudol wedi'u hailddrafftio i ymateb i adborth yr ymgynghoriad ac maent ar gael yn Gymraeg hefyd. Ailysgrifennom sawl adran i wella eglurder, gan gynnwys: pennod newydd ar niwed, sy'n cynnwys diffiniadau o niwed cymedrol/difrifol a marwolaeth, adran ar niwed anfwriadol/annisgwyl, ac adran ar sgîl-effeithiau a chymhlethdodau. Gwnaethom hefyd atgyfnerthu ac adolygu'r adran ar restrau aros ac oedi diagnostig sy'n achosi niwed yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad ac rydym wedi gwella'r enghreifftiau iechyd meddwl o niwed seicolegol.

Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, rydym wedi datblygu pennod ar y ddyletswydd gonestrwydd a'r modd y caiff ei chymhwyso i blant a phobl ifanc.

Rydym wedi cryfhau'r adran 'y gallai ddioddef' ac wedi cyflwyno adran newydd ar niwed bwriadol a diwylliant cyfiawn. Yn ogystal, rydym wedi newid y Rheoliadau Gonestrwydd fel bod yr hysbysiad ysgrifenedig wedi cynyddu o ddau ddiwrnod gwaith i 5 diwrnod gwaith ar ôl yr hysbysiad uniongyrchol.

Diwygiwyd y Rheoliadau Gweithio i Wella fel bod yn rhaid cydnabod yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith er mwyn cysoni gweithdrefn Gweithio i Wella â'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwnaed diwygiadau pellach hefyd i'r Rheoliadau Gweithio i Wella i ddileu'r gofyniad am roi gwybod i glaf (neu ei gynrychiolydd) am yr hysbysiad o bryder, a'r gofyniad i anfon copi o'r hysbysiad o bryder, pan fo hysbysiad o dan y rheoliadau gonestrwydd eisoes wedi ei roi iddynt.

Fe wnaethom hefyd ymgorffori diwygiadau'r Rhwydwaith Penaethiaid Profiad y Claf (HOPE) a diweddaru'r adran ddiogelu yn y canllawiau Gweithio i Wella, a chyflwyno rôl Llais (Corff Llais y Dinesydd) gan ddisodli rôl y CIC mewn canllawiau.

Mae'r adroddiad hwn yn ddadansoddiad sylweddol o ymatebion dinasyddion a gweithwyr proffesiynol ledled Cymru i'r ymgynghoriad ac mae'r adborth wedi bod yn hollbwysig wrth ailddrafftio'r canllawiau statudol, y Rheoliadau a'r deunyddiau ategol i sicrhau bod y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gweithredu'n effeithiol i wella profiad defnyddwyr gwasanaeth ar draws y GIG a pharhau i adeiladu diwylliant agored a thryloyw effeithiol.

# Atodiadau

## Atodiad A: Diffiniadau o Themâu ac Is-Themâu a Nodwyd

| Thema/Themâu | Diffiniad |
|---|---|
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | Mae’r ymatebydd yn pwysleisio nad yw’r canllawiau’n glir nac yn gryno, a/neu fod angen gwybodaeth ychwanegol. |
| Adnoddau a Hyfforddiant | Mae'r ymatebwr wedi amlygu y bydd angen adnoddau neu hyfforddiant ychwanegol i weithredu'r canllawiau statudol. |
| Llywodraethu a Goruchwylio | Amlygir bod angen rhoi ystyriaeth bellach i oruchwylio, gwneud penderfyniadau a chyfrifoldeb disgwyliedig o dan y ddyletswydd statudol newydd. |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | Mae'r ymatebwr wedi nodi bod angen i'r canllawiau ystyried ymhellach anghenion unigolyddol pob claf, gan sicrhau bod y ddyletswydd yn parhau i ganolbwyntio ar y claf a bod gwybodaeth a chymorth ar gael. |

| Thema/Themâu | Is-thema/Is-themâu | Diffiniad |
|---|---|---|
| Angen Gwybodaeth Bellach/Eglurder | Amseroedd/Rhestrau Aros – Mynediad i Ofal | Teimlwyd bod angen i'r canllawiau fod yn gliriach ynghylch y ddyletswydd o ran y rhai sy'n aros i gael mynediad i ofal. |
| | Dyletswydd Broffesiynol a Statudol | Teimlir bod angen rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar y dyletswyddau proffesiynol a statudol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd, a bod hynny'n glir i bob darparwr gwasanaeth. |
| | Grwpiau Agored i Niwed (mewn Perygl o Niwed) | Roedd y sylw yn pwysleisio bod angen mwy o wybodaeth ac ystyriaeth i grwpiau bregus (e.e. plant). |
| | Diffiniad o Niwed (Goddrychedd) | Er bod y fframwaith lefelau niwed wedi'i gynnwys, teimlwyd bod angen mwy o wybodaeth ac arweiniad ynghylch y diffiniad o niwed oherwydd y goddrychedd rhwng unigolion/timau. |
| | Gofynnwyd am Enghraifft/ Senario/Cyfarwyddyd (neu Ychwanegol) | Dywedodd yr ymatebydd y byddai rhagor o enghreifftiau, astudiaethau achos neu dempledi o fudd ac yn cefnogi eu dealltwriaeth a gweithredu'r canllawiau ganddynt. |
| | Terminoleg | Amlygwyd bod angen gwneud y derminoleg a ddefnyddir yn y canllawiau yn gliriach neu ei hadolygu i'w gwneud yn fwy hygyrch. |
| Adnoddau a Hyfforddiant | Cyfyngiadau Amser/Staffio | Teimlwyd y byddai gweithredu'r ddyletswydd ac adrodd arni yn achosi cynnydd mewn llwyth gwaith ac, o ganlyniad, yn y pwysau ar dimau. |
| | Mynediad i Systemau/Gwybodaeth | Nododd yr ymatebydd fod pryderon ynghylch diffyg mynediad i systemau neu wybodaeth benodol i weithredu neu adrodd ar y ddyletswydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Angen Hyfforddiant/Cymorth i'w Gweithredu | Er mwyn i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith yn ymarferol, teimlwyd y byddai angen rhagor o hyfforddiant a chymorth ar gydweithwyr i feithrin eu gwybodaeth a'u hyder. |
| Llywodraethu a Goruchwylio | Pwy/Sut i Sbarduno/Rheoli'r Ddyletswydd (Gwneud Penderfyniad) | Amlygwyd pryder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am sbarduno ac yna rheoli/ymchwilio, neu sut y dylid gwneud hyn mewn rhai achosion. Gall hyn hefyd gynnwys ymholiadau ynghylch a yw cleifion yn gallu ysgogi'r ddyletswydd. |
| | Angen mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Polisïau/Gweithdrefnau/Darparwyr Gwasanaeth Eraill | Amlygodd yr ymatebydd fod gorgyffwrdd neu ddibyniaeth ar bolisi, gweithdrefn neu ddarparwr gwasanaeth arall yr oedd angen mynd i'r afael ag ef er mwyn i'r Ddyletswydd gael ei gweithredu. |
| | Pryd i Sbarduno'r Ddyletswydd, Amserlenni a Therfynau Amser | Amlygodd yr ymatebydd bryder neu ymholiad ynghylch pryd y dylid sbarduno'r Ddyletswydd a/neu'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer sbarduno'r Ddyletswydd ac adrodd arni. |
| Parhau i ganolbwyntio ar y claf | Cyfathrebu | Amlygwyd bod angen i'r dulliau cyfathrebu a'r derminoleg a ddefnyddir gyda chleifion fod yn glir, yn agored ac yn onest, yn ogystal â bod yn briodol er mwyn i'r unigolyn gael dealltwriaeth glir. |
| | Gwersi a Ddysgwyd i Ysgogi Gwelliant | Amlygwyd y dylai'r wybodaeth o sbarduno'r Ddyletswydd ysgogi newid a gwelliant fel nad yw digwyddiadau tebyg yn codi eto. |
| | Anghenion Unigolyn i'w Hystyried | Amlygodd yr ymatebydd y bydd angen i'r canllawiau a gweithredu'r ddyletswydd adlewyrchu anghenion unigolyddol, a gallai hyn olygu teilwra'r canllawiau i'r anghenion hynny neu fod yn hyblyg. |

## Atodiad B: Rhestr o'r Ymatebwyr

| ID yr Ymatebydd | Enw'r Ymatebydd | Math o Ymatebydd |
|---|---|---|
| 204137889 | Jemaimah Morgan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 204214468 | Qaisar Jaffri, Deintyddfa Talking Teeth | Cynrychiolydd/sefydliad darparwr annibynnol |
| 204710996 | Paul Stephens | Heb ei nodi. |
| 205098384 | Dr Luke John Davies, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 205901902 | Tim Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 206144548 | Jonathan Rees, Y Gymdeithas Fferylliaeth Genedlaethol | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 206386763 | Millie Tozer, Rhwydwaith Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol | Cynrychiolydd/sefydliad darparwr annibynnol |
| 205931873 | Lauraine Clarke | Dinesydd/Defnyddiwr Gwasanaeth |
| 206503239 | Heb ei nodi. | Heb ei nodi. |
| 206526768 | Richard Lee | Dinesydd/Defnyddiwr Gwasanaeth |
| 199998947 | Anhysbys | Anhysbys |
| 200466352 | Anhysbys | Anhysbys |
| 200910752 | Anhysbys | Anhysbys |
| 201424447 | Anhysbys | Anhysbys |
| 206525447 | John Charles | Dinesydd/Defnyddiwr Gwasanaeth |
| 206526730 | Rochelle Keenaghan, Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 206541267 | Tony Sawyer | Dinesydd/Defnyddiwr Gwasanaeth |
| 206549759 | Patricia Canedo, Y Gymdeithas Gwarchod Meddygol (MPS) | Cynrychiolydd/sefydliad darparwr annibynnol |
| 206550735 | Anhysbys | Anhysbys |
| 206558669 | Anhysbys | Anhysbys |
| 204506403 | Anhysbys | Anhysbys |
| 206574138 | Matthew Armstrong, Boots UK (Contractiwr Fferylliaeth Gymunedol) | Cynrychiolydd/sefydliad darparwr annibynnol |
| 205889018 | Anhysbys | Anhysbys |
| 206578361 | Anhysbys | Anhysbys |
| 206581670 | Olivier Denève, Coleg yr Optometryddion | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 206628194 | Stephanie Muir, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 205484334 | Anhysbys | Anhysbys |
| 207660077 | Wendy Herbert, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207661075 | Darrell Baker, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 206380048 | Anhysbys | Anhysbys |
| 207664779 | Optometreg Cymru | Cynrychiolydd/sefydliad darparwr annibynnol |

| | | |
|---|---|---|
| 207666700 | Susan Ward, Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 206441161 | Anhysbys | Anhysbys |
| 207669153 | Penny Gripper | Dinesydd/Defnyddiwr Gwasanaeth |
| 207672323 | Julie Richards, Coleg Brenhinol y Bydwragedd Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207691233 | Ceri Davies, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon Lloegr | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207699552 | Nick Unwin, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207701820 | Ymateb Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207732442 | Mark Harris, Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Risg a Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207733164 | Michael Devlin, Yr Undeb Amddiffyn Meddygol | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207734263 | Natasha Wynne, Marie Curie Cymru | Cynrychiolydd/sefydliad darparwr annibynnol |
| 207751793 | Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207771194 | Louise O'Connor, Cyfarwyddwr Cynorthwyol. (Gwasanaethau Cyfreithiol/Profiad y Claf) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207820428 | Sara Moseley Pennaeth CMC Cymru, Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207825297 | Calum Higgins - Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207828823 | Rocio Cifuentes MBE, Comisiynydd Plant Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207829548 | Katherine Lowther, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207830112 | Nigel Downes - Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Ymddiriedolaeth GIG Felindre | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207831745 | Anhysbys | Anhysbys |
| 207834073 | Kerry Robertshaw Arweinydd Datblygiad Proffesiynol - Ymarfer Uwch, WAST | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207836693 | Mary Barratt, Rheolwr Ansawdd a Sicrwydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207845810 | Christine Owen Rheolwr Gwella Ansawdd a Pherfformiad, Uned Gyflawni GIG Cymru | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207846848 | Rachel Podolak - /Cyfarwyddwr Cenedlaethol (Cymru), Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207848317 | Christie Owen, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207849527 | Dave Thomas, Archwilio Cymru | Cynrychiolydd/sefydliad darparwr annibynnol |
| 207850741 | Cymdeithas yr Anesthetyddion | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207852010 | Ana Ramos, Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol | Cynrychiolydd/sefydliad darparwr annibynnol |

| | | |
|---|---|---|
| 207855617 | Angela Hughes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207857995 | Helen Twidle, Age Cymru | Sefydliad/cynrychiolydd elusen |
| 207860004 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207860985 | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207862876 | Melanie Harries ar ran y Tîm Ansawdd a Diogelwch, Uned Gyflawni GIG Cymru | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |
| 207863754 | Russell Goodway - Prif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207864080 | Michelle Morris Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207864410 | Triniaeth Deg i Ferched Cymru (FTWW) | Sefydliad/cynrychiolydd elusen |
| 207866003 | Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207866273 | Valerie Billingham, Arweinydd Iechyd a Gofal, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207866567 | Naila Noori (hi), Swyddog Materion Allanol (Cymru), Tess Saunders, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru), David Davies, Arweinydd Ymarfer Proffesiynol (Cymru), Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd; Coleg Brenhinol Podiatreg; Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, | Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol |
| 207866914 | Dr Grace Krause, Anabledd Dysgu Cymru | Sefydliad/cynrychiolydd elusen |
| 207867124 | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG |

## Atodiad C Copi o'r Ymgynghoriad



consultation-document_0.pdf